




Ministry  
of Justice

# Cryfhau'r gwasanaeth prawf, meithrin hyder

Gorffennaf 2018

Cm 9613

Protecting and advancing the principles of justice





## **Cryfhau'r gwasanaeth prawf, meithrin hyder**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r  
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan  
Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2018



© **Hawlfraint y Goron 2018**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn [probationconsultation@justice.gov.uk](mailto:probationconsultation@justice.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-0729-2

CCS0718121624            07/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- Ar gyfer:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at bawb sydd â buddiant yn y system brawf, yn cynnwys ymarferwyr prawf, darparwyr, defnyddwyr gwasanaeth, y farnwriaeth, dioddefwyr troseddau a grwpiau â buddiant, yn cynnwys y sector gwirfoddol.
- Cyfnod:** O 27 Gorffennaf 2018 i 21 Medi 2018
- Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** [probationconsultation@justice.gov.uk](mailto:probationconsultation@justice.gov.uk)
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 21 Medi 2018 drwy: <https://consult.justice.gov.uk/hm-prisons-and-probation/strengthening-probation-building-confidence>
- Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich safbwyntiau:** Mae amryw o weithgareddau ymgynghori yn cael eu cynnal: mae gwybodaeth am y rhain ar gael yn yr hyb ymgynghori.
- Os na allwch gael mynediad at y canolbwynt ymgynghori, e-bostiwch yr ymatebion i [probationconsultation@justice.gov.uk](mailto:probationconsultation@justice.gov.uk)
- Hefyd, gellir anfon ymatebion drwy'r post i:
- Probation Programme  
Ministry of Justice  
Post point 7.55  
102 Petty France  
London  
SW1H 9AJ

## Cynnwys

Rhagair yr Ysgrifennydd Cyfiawnder	2
Crynodeb Gweithredol	4
Cyd-destun	9
Goruchwylio troseddwyr a chyflawni dedfryd y llys	13
Adsefydlu troseddwyr yn fwy effeithiol	18
Paratoi carcharorion ar gyfer bywyd yn y gymuned	22
Gweithlu â'r hyfforddiant a'r sgiliau priodol	26
Gwella integreiddio'r system	28
Gweithio'n agosach â phartneriaid	31
Gwasanaeth prawf sydd yn gweithio i Gymru	35
Ysgogi gwell perfformiad	37
Holiadur	39
Amdanoch chi	41
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	42

## Rhagair yr Ysgrifennydd Cyfiawnder

Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i ddarparu system cyfiawnder troseddol sydd yn gwarchod y cyhoedd, sydd yn cosbi'r rhai sydd wedi torri'r gyfraith mewn ffordd ystyrlon a chymesur, ac sydd yn cefnogi troseddwr i gefnu ar droseddu.

Mae gwasanaethau prawf sydd yn gweithio'n dda yn rhan annatod o hynny. Maent nid yn unig yn monitro troseddwr ond maent hefyd yn rhoi cyngor i lysoedd fel y gall dedfrydau adlewyrchu'n well y ffactorau cymhleth sydd yn aml yn rhan o amgylchiadau'r troseddwr; rheoli proffil risg newidiol troseddwr sydd yn eu gofal; a sicrhau bod y rhai maent yn eu goruchwyllo yn cyflawni amodau dedfrydau cymunedol, dedfrydau gohiriedig ac amodau trwydded.

Rydym yn gwybod bod dedfrydau cymunedol yn aml yn fwy effeithiol na charchar o ran lleihau troseddu. Rydym eisiau eu gweld yn cael eu defnyddio'n fwy aml, yn arbennig yn hytrach na dedfrydau o garchar byr all darfu ar fywydau pobl heb gynnig i garchardai yr amser a'r cymorth penodol sydd ar gael yn ystod dedfrydau hirach er mwyn i'r afael â'r hyn sydd yn achosi iddynt droseddu.

Er mwyn cyflawni'r newid yma o ran rheoli a chefnogi troseddwr yn y gymuned yn hytrach na'u carcharu, rydym angen system brawf sydd yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, y mae gan farnwyr ac ynadon hyder ynddi, ac sydd yn cyflawni'r cydbwysedd priodol rhwng cosb gymesur a chymorth adsefydlu i droseddwr.

Bu i *Drawsffurfio Adsefydlu* gynnig cyfle i ystod ehangach o ddarparwyr ddarparu gwasanaethau prawf, a chreodd y strwythur sydd yn bodoli heddiw, gydag un Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn goruchwyllo troseddwr risg uwch, a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) yn rheoli achosion risg canolig ac is. Rwyf yn credu bod yna gryfder yn yr ymagwedd marchnad gymysg yma, a bod yna gyfle i ystod o ddarparwyr, yn cynnwys yn y sector gwirfoddol, barhau i gynnig syniadau ffres ac arloesol i'r gwasanaethau prawf.

Eisoes rydym wedi gweld gostyngiad o ddau bwynt canran yng nghyfraddau aildroseddu unigolion gaiff eu goruchwyllo gan CRCau, a rhai enghreifftiau cadarnhaol o weithio da ar y cyd rhwng yr NPS, CRCau a'u partneriaid lleol. Fodd bynnag, fel y mae adroddiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn ei egluro, mae'r set gyntaf o gontractau CRC wedi wynebu nifer o heriau. Er y disgwylid anawsterau mewn rhaglen ddiwygio mor arwyddocaol a chymhleth, rwyf eisiau mynd i'r afael â'r materion hynny cyn gynted â phosibl.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu sefydlogi'r gwasanaethau prawf a gwella'r gwasanaethau goruchwyllo troseddwr a'r gwasanaethau trwy'r-giât. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd hyd yma er mwyn sefydlu gwasanaethau mwy effeithiol a fframwaith masnachol fwy cydnerth.

Rydym yn bwriadu alinio'r NPS ac ardaloedd CRC yn Lloegr, gan hwyluso datblygu partneriaethau lleol agosach, ac anelu at gydnabod yr amgylchedd darparu neilltuol a geir yng Nghymru drwy uno'r NPS ac CRCau fel un gwasanaeth prawf cyfun, tra'n creu cyfle i amrywiaeth o ddarparwyr gystadlu i ddarparu gwasanaethau adsefydlu. Yn ogystal â'r

elfennau strwythurol a'r elfennau contract, rydym hefyd eisiau gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau mae troseddwr yn eu derbyn mewn nifer o feysydd, a chydabod sgiliau, profiad a phroffesiynoldeb ein gweithlu ymroddedig yn well.

Rwyf yn edrych ymlaen at glywed safbwyntiau nifer o bobl a sefydliadau sydd â buddiant yn y ffordd y darperir y gwasanaethau hyn, a bydd eich mewnbwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyflwyno newidiadau fydd yn atgyfnerthu ein system brawf ac a fydd yn ei dro yn helpu i dorri'r cylch aildroseddu.



Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder





## Crynodeb gweithredol

Mae'r gwasanaethau prawf yn rhan ganolog o system gyfiawnder troseddol effeithiol. Maent yn cyflawni gorchmynion y llys, yn amddiffyn y cyhoedd rhag niwed ac yn adsefydlu troseddwr. P'un ai bod troseddwr yn derbyn dedfryd gymunedol neu'n cael ei anfon i'r carchar, bydd y gwasanaeth prawf yn rhan ganolog o sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wireddu a bod y rhai sydd wedi cyflawni troseddau yn dychwelyd i fod yn aelodau o gymdeithas sy'n ufuddhau i'r gyfraith. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol o ran lleihau aildroseddu na dedfrydau o garchar byr, ond os ydynt i wireddu eu potensial mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cyflawni a'u gorfodi yn briodol, bod troseddwr yn cael eu goruchwylio'n effeithiol a bod gan y llysoedd, dioddefwyr a'r cyhoedd hyder yng ngallu'r gwasanaeth prawf i wneud hynny.

Yn y papur hwn rydym yn nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd ar unwaith i sefydlogi'r ffordd y bydd y gwasanaethau prawf yn cael eu darparu yn ystod y ddwy flynedd nesaf, yn ogystal â'n strategaeth fwy hirdymor ar gyfer gwella ansawdd goruchwyliaeth, adsefydlu ac ailsefydlu y tu hwnt i 2020, a chreu system fwy integredig sydd yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid lleol. Mae'r weledigaeth fwy hirdymor yma yn amcanu at adeiladu ar y newidiadau a gyflwynwyd gan ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu fel ein bod yn gwireddu ein huchelgais yn fwy cyflawn er mwyn lleihau aildroseddu a gwarchod y cyhoedd.

### Trawsnewid Adsefydlu

Roedd y diwygiadau arwyddocaol y bu i ni eu gwneud i'r gwasanaeth prawf fel rhan o raglen Trawsnewid Adsefydlu yn seiliedig ar egwyddorion cadarn:

- ymestyn goruchwyliaeth ôl-ryddhau i garcharorion dedfrydau byr sydd yn rhy aml yn cael eu hailgylchu drwy'r system cyfiawnder troseddol;
- agor y farchnad i ystod ehangach o ddarparwyr er mwyn annog arloesedd a ffyrdd mwy modern o weithio;
- creu cymhellion newydd i ddarparwyr ganolbwyntio ar leihau aildroseddu; a
- sicrhau mwy o ffocws ar reoli troseddwr risg uwch.

Roedd y rhain, ac mae'r rhain, yn amcanion synhwyrol. Yn ystod y tair blynedd ers iddynt ddod i lawn rym mae'r diwygiadau hyn wedi arwain at rai llwyddiannau, a drwy gydol y cyfnod hwn mae staff wedi parhau i arddangos eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb. Mae yna feysydd o ymarfer dda ac addawol ar draws ystod o darparwyr, ac rydym wedi gweld gostyngiad o ddau pwynt canran yng nghyfraddau aildroseddu unigolion sydd yn cael eu goruchwylio gan CRC. Mae'r NPS wedi sefydlu ffyrdd mwy cyson o weithio, ac yn gyffredinol asesir ei fod yn perfformio'n dda o ran rheoli troseddwr risg uchel.

Ond, rydym yn ymwybodol bod gwireddu gweledigaeth y diwygiadau yma yn llawn wedi bod yn heriol. O'n hasesiadau ein hunain, ac asesiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Prawf HMI) a Phwyllgor Dethol ar Gyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, mae'n amlwg nad yw ansawdd y gwasanaethau prawf gaiff eu darparu yn ateb y disgwyliadau mewn nifer o feysydd. Mae'r rhesymau am hynny yn niferus a chymhleth, ac mae'r sefyllfa wedi ei gwaethgu gan yr heriau ariannol sydd yn wynebu'r CRC yn dilyn newidiadau anhagwladwy o ran swm a mathau o achosion sy'n cyrraedd y llys, a newidiadau o ran amledd aildroseddu a ddigwyddodd cyn bod CRC yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau.

## **Camau ar unwaith i sefydlogi darpariaeth y system brawf**

Bu i ni gymryd camau y llynedd i addasu contractau CRC er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir y costau y mae darparwyr yn ei ysgwyddo wrth ddarparu gwasanaethau, ond nawr rydym yn credu bod angen i ni gymryd camau mwy pendant i daclo rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r contractau cenhedlaeth gyntaf yma a gosod y gwasanaeth prawf ar sylfaen mwy sefydlog. Mae tueddiadau aildroseddu hirdymor yn effeithio'n sylweddol ar incwm talu-ar-sail-canlyniadau darparwyr, ac mae'n bygwth tanseilio darparu gwasanaethau craidd ac atal y gwasanaeth prawf rhag ymateb yn fwy effeithiol i her troseddu cyson.

Felly rydym wedi cytuno gyda'n darparwyr presennol y byddwn yn amcanu at derfynu contractau CRC yn gynt na'r disgwyl. Yna, gyda rhanddeiliaid a'r farchnad, byddwn yn archwilio sut y gallwn sefydlu trefniadau darparu mwy effeithiol a gwelliannau ehangach i'r system y tu hwnt i 2020. Mae yna lawer y gallwn ei ddysgu o'r contractau CRC presennol, yn cynnwys ymarfer dda y gallwn adeiladu arno, yn ogystal â phethau y byddwn eisiau eu gwneud yn wahanol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gallu'r farchnad i ddarparu gwasanaethau prawf yn cael ei wireddu'n llawn. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud nifer o welliannau i wasanaethau CRC nawr ac addasu'r flwyddyn waelodlin yr ydym yn ei defnyddio i gymharu perfformiad o ran amledd aildroseddu fel bod hynny yn adlewyrchu gwir berfformiad darparwyr yn well ers dechrau'r contractau.

## **Ein strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau prawf y tu hwnt i 2020**

Os yw'r wladwriaeth eisiau cyflawni ei rwymedigaeth sylfaenol o ran diogelu'r cyhoedd, mae gan y gwasanaethau prawf rôl gritigol i'w chwarae. Drwy oruchwylio ac adsefydlu troseddwr yn briodol, gall gwasanaethau prawf atal pobl rhag bod yn ddiodefwr troseddau yn y dyfodol a sicrhau bod cymunedau yn fwy diogel.

Yn y papur hwn rydym yn nodi ein cynigion er mwyn hyrwyddo ffocws fwy clir er mwyn i'r gwasanaethau prawf gyflawni'r swyddogaethau craidd yma a darparu'r gwasanaethau safonol sydd yn ofynnol gennym ni a'r llysoedd. Rydym hefyd yn disgrifio camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn creu system brawf fwy integredig a chydweithredol, ac yn nodi cynigion er mwyn gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth prawf yn gweithio gyda phartneriaid ehangach. Ein nod yw gwella'r ffordd y mae'r system brawf yn gweithredu a chreu'r amodau i strwythurau presennol allu cyflawni gwell deilliannau, tra'n lleihau'r tarfu y gallai diwygio mwy arwyddocaol ei greu.

Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym eisiau ymgysylltu â darparwyr arfaethedig, rhanddeiliaid, barnwyr ac ynadon, partneriaid lleol, staff, defnyddwyr a gwasanaethau prawf a'r cyhoedd er mwyn helpu i siapio ein cynigion er mwyn gwella ansawdd gwaith prawf a sefydlu'r strwythurau priodol er mwyn ategu darpariaeth effeithiol. Bydd yr adborth yr ydym yn ei dderbyn, a mwy o waith ar asesu effeithiau'r diwygiadau a gynigir, yn hysbysu'r penderfyniadau y byddwn yn eu cymryd yn ddiweddarach eleni ynghylch ein strategaeth ar gyfer y dyfodol.

## **Goruchwylio troseddwr a chyflawni dedfryd y llys**

Goruchwylio troseddwr yn effeithiol a gwarchod y cyhoedd yw sylfaen system brawf effeithiol. Mae'n rhaid asesu troseddwr yn briodol ac mae'n rhaid i'w swyddogion prawf eu gweld yn rheolaidd. Mae'n rhaid cyflawni dedfryd y llys, a phan nad yw troseddwr yn cydymffurfio â'r gofynion mae'n rhaid cymryd camau cyflym a chadarn.

Er mwyn gwella'r dull o oruchwyllo a rheoli troseddwy'r byddwn yn:

- gwella'r ffordd o **asesu** troseddwy'r drwy adolygu prosesau a sicrhau, cyn belled a bod hynny'n ymarferol, yr adeiledir ar asesiad trwyadl o ansawdd dda a bod hynny yn dilyn troseddwy'r drwy gydol ei ddedfryd;
- cyflwyno **safonau gofynnol** sy'n nodi math ac amledd cyswllt rhwng y troseddwr a'i swyddog cyfrifol. (Rydym yn bwriadu addasu contractau CRC cyfredol fel bod pob darparwr yn cynnig cyfarfodydd â throseddwy'r wyneb yn wyneb yn fisol o leiaf.)
- gwella'r **gwaith di-dâl** a ddarperir er mwyn sicrhau bod yna ddigon o leoliadau ar gael i droseddwy'r a bod y rhai hynny yn hyrwyddo sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth; ac
- archwilio opsiynau i wneud **goruchwyliaeth ôl-ddedfryd** yn fwy cymesur i drosedd unigolyn a'u hanghenion adsefydlu;

### Adsefydlu troseddwy'r yn fwy effeithiol

Bydd yr hyn sy'n achosi troseddu, a'r camau sydd eu hangen er mwyn atal aildroseddu, yn wahanol ar gyfer pob troseddwr. Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau prawf sicrhau eu bod yn clustnodi'r anghenion yma, yn darparu'r ystod a'r ansawdd o ran gwasanaethau sydd eu hangen i adsefydlu troseddwy'r, ac yn gweithio â gwasanaethau eraill er mwyn helpu i droseddwy'r dderbyn y cymorth y mae ganddynt hawl ei dderbyn.

Er mwyn gwella adsefydlu troseddwy'r byddwn yn:

- gwella ansawdd y **cyngor i'r llysoedd** a ddarperir gan yr NPS fel bod hynny yn hysbysu penderfyniadau ynghylch dedfrydu yn fwy effeithiol, a hyrwyddo ymgysylltu rhwng llysoedd a CRC er mwyn gwella **hyder barnwrol**;
- diffinio ystod ac ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu fel rhan o **ofyniad gweithgareddau adsefydlu**, ac ymgorffori'r rhain mewn contractau a lefelau gwasanaeth yn y dyfodol;
- cynyddu'r defnydd o ddedfrydau cymunedol sydd yn cynnwys **gofynion triniaeth cyffuriau, alcohol neu iechyd meddwl** drwy brofi protocol mewn pum ardal ar draws Lloegr;
- buddsoddi mewn darpariaeth wedi ei deilwra ar gyfer **troseddwy'r benywaidd**; a
- gwella'r **data yr ydym yn ei gasglu a'i gyhoeddi** ar nodweddion gwarchoddedig troseddwy'r.

### Paratoi carcharorion ar gyfer bywyd yn y gymuned

Mae adsefydlu troseddwy'r yn llwyddiannus wrth iddynt adael carchar yn rhan hanfodol o'u hatal rhag llithro'n ôl i fywyd o droseddu. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth prawf weithio'n effeithiol â charchardai er mwyn clustnodi a mynd i'r afael ag anghenion adsefydlu, a gyda phartneriaid ehangach sydd yn gyfrifol am helpu carcharorion i sicrhau llety pan gânt eu rhyddhau, canfod cyflogaeth neu fynediad at fudd-daliadau, a mynediad parhaus at driniaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Er mwyn gwella adsefydlu unigolion sy'n gadael carchar byddwn yn:

- archwilio opsiynau ar gyfer **model adsefydlu i'r dyfodol** sy'n gosod rheolwyr troseddwy'r yn y carchar a'r gymuned yn rhan ganolog o'r broses, ac ystyried y gwasanaethau adsefydlu allai swyddogion cymorth fod eu hangen (Rydym hefyd

yn bwriadu buddsoddi £22m y flwyddyn yn ychwanegol er mwyn gwella darpariaeth drwy'r-giât bresennol); a

- dod ag adrannau allweddol at ei gilydd er mwyn taclo'r rhwystrau rhag adsefydlu drwy **Fwrdd Lleihau Aildroseddu trawslywodraethol**.

### Gweithlu â'r hyfforddiant a'r sgiliau priodol

Mae effeithlonrwydd gwaith prawf yn dibynnu ar staff sydd â'r ymrwymiad proffesiynol a galwedigaethol i wneud gwahaniaeth gyda throseddwyr. Mae diwygiadau diweddar wedi achosi anhwylystod a heriau i'r staff. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn er mwyn datblygu sgiliau a chapasiti'r gweithlu fel bod yr holl staff yn gallu gwneud eu gwaith.

Er mwyn gwella sgiliau a gallu'r gweithlu prawf byddwn yn:

- **datblygu strategaeth gweithlu** sydd yn sicrhau y gall darparwyr recriwtio a datblygu'r staff sydd ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau prawf o safon; a
- **chefnogi staff i ddilyn gyrfaoedd ym maes prawf** drwy ddiffinio'n gliriach beth yw sgiliau a chymwyseddau trosglwyddadwy swyddogion cyfrifol a chyflwyno cofrestr broffesiynol.

### Gwella integreiddio'r system

Mae angen i ni sicrhau bod yr NPS a CRC yn cydweithio'n agosach fel rhan o un system integredig. Wrth wneud hynny gallwn wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol, tra'n creu'r amodau ar gyfer gweithio'n gryfach mewn partneriaeth.

Er mwyn gwella integreiddio'r system byddwn yn:

- **creu 10 ardal prawf yn Lloegr** ac yn ffurfweddu sut y darperir y gwasanaeth ym mhob ardal, gydag uwch HMPPS yn gyfrifol am uno gwasanaethau a gweithio gyda rhanddeiliaid;
- **buddsoddi mewn gwasanaethau digidol HMPPS** er mwyn symleiddio mynediad at ddata a chyfnewid data a gwelliannau i systemau TG; ac
- archwilio opsiynau ar gyfer **comisiynu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu** sydd yn hyrwyddo ymgysylltu a chydweithredu gyda phartneriaid lleol, a hwyluso mwy o gyfranogiad y sector gwirfoddol mewn perthynas â darparu gwasanaethau prawf.

### Gweithio'n agosach â phartneriaid

Mae'n rhaid i adsefydlu ac ailintegreiddio fod yn fenter ar y cyd, gydag ystod o wasanaethau statudol a gwirfoddol yn chwarae rôl ynghyd â'r gwasanaeth prawf o ran taclo'r problemau sy'n achosi i droseddwyr gyflawni troseddau. Drwy weithio'n fwy effeithiol â'r partneriaid hyn, a'r holl wasanaethau cyhoeddus yn cyflawni eu hymrwymadau mewn perthynas â throseddwyr, gallwn wella deilliannau unigol a gwarchod dioddefwyr a chymunedau.

Er mwyn gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth prawf yn gweithio â phartneriaid, byddwn yn:

- gweithio â **sefydliadau'r sector gwirfoddol**, arianwyr ymddiriedolaethau dyngarol a sefydliadau cyllid cyhoeddus er mwyn archwilio sut y gallai gwahanol ddulliau o

gomisiynu hyrwyddo mwy o gyfranogiad ganddynt o ran darparu gwasanaethau i droseddwr;

- ymgysylltu â **Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu** er mwyn ystyried sut y gallent chwarae mwy o rôl o ran siapio gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu a gwella cydweithrediad lleol ag asiantaethau statudol; a
- gweithio gyda **Llundain a Manceinion Fwyaf** fel rhan o'r bargeinion datganoli presennol er mwyn cyd-ddylunio gwasanaethau prawf i'r dyfodol.

### Gwasanaeth prawf sydd yn gweithio i Gymru

Mae cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru a threfniadau partneriaethau presennol yng Nghymru yn golygu bod darparu gwasanaethau prawf yn wahanol i'r hyn a geir yn Lloegr. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn rhoi cwrpas i ni allu datblygu trefniadau darparu amgen sydd yn adlewyrchu cyd-destun cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn well a rôl HMPPS Cymru. Yna byddwn yn ystyried a yw'r hyn a ddysgir o'r trefniadau newydd hynny yn gymwys i'r system yn Lloegr.

Er mwyn datblygu gwasanaeth prawf sydd yn gweithio i Gymru byddwn yn:

- **integreiddio swyddogaethau rheoli troseddwr** CRC Cymru i NPS Cymru fel mai un sefydliad sy'n gyfrifol am yr holl droseddwr, gan ddarparu cyfleoedd i wella gwasanaethau ar draws carchardai a'r gwasanaeth prawf; ac
- **archwilio opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaethau adsefydlu yng Nghymru** sydd yn adlewyrchu'r cyd-destun darparu a sgiliau a gallu darparwyr.

### Ysgogi gwell perfformiad

Mae'n bwysig bod y gwasanaeth prawf yn canolbwyntio ar y deilliannau cywir a bod gan ddarparwyr gymhellion ystyrllon er mwyn cyflawni hynny. Hefyd mae angen i ni sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran perfformiad, a bod y ffordd yr ydym yn goruchwyllo gwasanaethau yn ysgogi gwelliannau.

Er mwyn ysgogi gwell perfformiad yn y system brawf byddwn yn:

- archwilio opsiynau ar gyfer **contractau i'r dyfodol fyddai yn talu i ddarparwyr ddarparu gwasanaethau craidd** tra'n cadw cymhelliannau sy'n ysgogi arloesedd a gwell perfformiad;
- archwilio opsiynau ar gyfer y **deilliannau perfformiad allweddol a mesurau** y dylid barnu darparwyr prawf yn eu herbyn mewn contractau yn y dyfodol a chytundebau lefel gwasanaeth; a
- cefnogi **Gwasanaeth Prawf HMI** er mwyn gweithredu ei fframwaith archwilio newydd fydd yn golygu y bydd darparwyr yn cael eu harchwilio a'u graddio yn flynyddol.

### **Y camau nesaf**

Rydym eisiau gweld troseddwr yn cael eu hadsefydlu'n llwyddiannus fel eu bod yn troi eu cefnau ar droseddu ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas. Pryd bynnag fo'n bosibl rydym eisiau i hynny ddigwydd yn y gymuned, gan leihau'r angen am ddedfrydau o garchar byr y mae tystiolaeth yn awgrymu sy'n arwain at ddeilliannau aildroseddu gwaeth. Er mwyn cyflawni hynny rydym angen system brawf sydd yn mynnu hyder y llysoedd a'r cyhoedd, sydd yn goruchwyllo troseddwr yn effeithiol ac sy'n amddiffyn y cyhoedd, ac sy'n gweithio gydag eraill er mwyn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar droseddwr er mwyn byw bywydau di-drosedd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion a sut y gallwn wireddu hynny. Nawr rydym eisiau ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn ceisio sylwadau ar y cynigion yma, gwrandao ar brofiadau a sylwadau eraill, a mireinio ein cynlluniau ar gyfer gwella'r gwasanaethau prawf.

## Cyd-destun

### Rôl y gwasanaeth prawf

1. Mae'r gwasanaethau prawf yn perfformio rôl allweddol yn y system cyfiawnder troseddol, gan weithio â throseddwr o'r adeg maent yn cael eu heuogfarnu yn y llys hyd at ddiwedd eu dedfryd - sydd yn nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach mewn nifer o achosion.
2. Staff y gwasanaeth prawf yw craidd y system reoli troseddwr, sy'n darparu'r hanfodion sy'n tanategu sut y caiff troseddwr eu cosbi a'u diwygio. Maent yn rhoi cyngor i lysoedd ynghylch penderfyniadau dedfrydu ac yn cysylltu â dioddefwyr; maent yn goruchwyllo troseddwr yn y gymuned, monitro risg ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu gwarchod; maent yn gweithio â throseddwr yn y ddalfa ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd ar ôl eu rhyddhau; maent yn cynllunio ac yn darparu cymorth adsefydlu ac yn cymhell troseddwr i newid; a maent yn dod â throseddwr yn ôl i'r llys neu'n eu galw'n ôl i'r carchar os nad ydynt yn cydymffurfio â'u dedfrydau.


### Diwygiadau diweddar i'r gwasanaeth prawf

3. Yn ystod y blynyddoedd diweddar rydym wedi cymryd camau er mwyn gwella sut y mae unigolion yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf yn y gymuned. Yn 2015 bu i ni gyflwyno lleiafswm o 12 mis o oruchwyliaeth ar gyfer pob troseddwr gaiff ei ryddhau o'r carchar, sydd yn golygu bod tua 40,000 o bobl ychwanegol sydd yn cael eu rhyddhau o ddedfrydau o garchar sydd yn llai na blwyddyn yn derbyn cymorth prawf yn y gymuned. Rydym wedi datblygu carchardai adsefydlu newydd ble byddai'r rhan fwyaf o'r carcharorion yn treulio y tri mis fyddai'n arwain at eu rhyddhau. Hefyd bu i ni gyflwyno gwasanaeth drwy'r-giât er mwyn helpu i bobl yn y carchar baratoi ar gyfer eu rhyddhau drwy glustnodi a goresgyn anghenion adsefydlu, megis canfod rhywle i fyw neu ganfod cyflogaeth neu hyfforddiant.
4. Er mwyn galluogi'r diwygiadau hyn, bu i'r system brawf gael ei haildrefnu'n sylweddol. Disodlwyd y 35 Ymddiriedolaeth Prawf annibynnol gan:
  - y **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)**, rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) sy'n gyfrifol am reoli troseddwr risg uwch, cynghori'r llysoedd, cefnogi dioddefwyr a rheoli safleoedd cymeradwyedig; a
  - 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) preifat sydd yn gyfrifol am oruchwyllo troseddwr risg isel neu ganolig, yn ogystal â darparu cynlluniau gwaith di-dâl, rhaglenni achrededig a darparu gwasanaethau adsefydlu drwy'r-giât i garcharorion gaiff eu rhyddhau.
5. Yn fwriadol rhoddwyd rhyddid sylweddol i ymgeiswyr am gontractau CRC gynnig ffyrdd newydd o weithio a chyflwyno gwasanaethau arloesol newydd i droseddwr, ac roedd contractau yn amcanu at annog ffocws ar wella adsefydlu drwy gynnwys mecanwaith talu-yn-seiliedig-ar-ganlyniadau oedd yn golygu bod cyfran o incwm darparwyr yn ddibynnol ar gyflawni gostyngiadau mewn aildroseddu. Bu i'r diwygiadau a greodd yr NPS a'r CRC, ac a arweiniodd at gontractau cenedlaeth gyntaf, arwain at gyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol i'r staff sydd yn haeddu clod anferthol am eu hymrwymiad a'u cydnerthed wrth gynnal gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn.




## Perfformiad presennol

6. Bu i'r gystadleuaeth am CRC arwain at ystod amrywiol o ddarparwyr newydd oedd yn darparu gwasanaethau prawf, ac rydym wedi gweld gwasanaethau a modelau gweithredu newydd ac arloesol yn cael eu datblygu. Mae rhai CRCau wedi defnyddio technoleg er mwyn monitro sut mae troseddwr yn ymgysylltu â gwasanaethau, ac er mwyn galluogi ymyrraeth wedi ei dargedu pan fo'r risg o aildroseddu yn cynyddu, ac mae mwy o fuddsoddi mewn technoleg symudol yn galluogi i swyddogion prawf weithio o bell ac ymgysylltu â throseddwr yn fwy effeithiol. Ar yr un pryd mae nifer o CRCau wedi creu effeithlonrwydd drwy rannu a llinio swyddogaethau'r swyddfeydd cefn, ac mae nifer o droseddwr wedi croesawu gofodau modern mewn swyddfeydd fel llefydd i gyfarfod â'u swyddogion cyfrifol. Cafodd CRC Cumbria a Swydd Caerhirfryn eu canmol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Prawf HMI) am ei berthnasoedd cadarnhaol gyda phartneriaid statudol, y ffordd sgiliedig o ddarparu ymyriadau effeithiol ac ansawdd ei ymgysylltu â'r NPS. Yn gyffredinol, mae ffigyrau cynnar yn dangos y bu, ar gyfartaledd, lleihad o ddau bwynt canran yng nghyfraddau aildroseddu troseddwr a reolir gan y CRC.
7. Mae creu'r NPS wedi sefydlu ffocws penodol ar amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwr risg uchel. Mae Prawf HMI wedi canmol nifer o adrannau'r NPS am safon eu gwaith, a bu iddo ganfod bod Safleoedd Cymeradwyedig yn gwneud gwaith rhagorol o ddarparu cymorth a monitro i rai o'r troseddwr mwyaf heriol. Mae creu'r NPS hefyd wedi hyrwyddo mwy o gysondeb ac effeithiolrwydd ar draws y system brawf.
8. Er hynny, er gwaethaf rhai o'r datblygiadau cadarnhaol hynny, rydym yn derbyn bod yna broblemau gyda'r gwasanaethau prawf. Mae archwiliadau gan Brawf HMI wedi clustnodi amrywiaeth o bryderon ynghylch perfformiad, yn benodol mewn perthynas â'r CRC. Nid yw'r trefniadau darparu hyd yma yn cyrraedd y safon o ran gwasanaethau na'r gwelliannau i ddeilliannau yr ydym eisiau eu gweld, ac mae'n gynyddol amlwg bod ein contractau cenhedlaeth gyntaf gyda'r CRC yn wynebu heriau sylweddol.
9. Mae incwm CRC yn dibynnu ar nifer y troseddwr maent yn eu goruchwyllo a'r mathau o ddedfrydau a roddir gan y llysoedd. Yn ystod y blynyddoedd diweddar bu gostyngiad parhaus cyson yng nghyfran y dedfrydau cymunedol a roddwyd, yn ogystal â gostyngiad yn nifer y gofynion a atodir i ddedfrydau cymunedol a dedfrydau gohiriedig - gostyngiad o 22% a 15% yn ôl eu trefn ers rhoi contractau yn 2014.



10. Yn ystod yr un cofnod, erbyn hyn mae troseddau trais yn erbyn yr unigolyn yn gyfran gynyddol o'r troseddau a gofnodir (i fyny o 16% yn 2010 i 28% yn 2017) ac mae cyfran y troseddau rhywiol a gofnodir wedi cynyddu hefyd (i fyny o 1% yn 2010 i 3% yn 2017). Mae'n debyg bod hynny wedi cyfrannu at lai o droseddwy'r yn cael eu dyrannu i CRC nag y rhagwelwyd pan roddwyd y contractau, ac at gynnydd mewn llwyth achos yr NPS.



11. O ganlyniad i dybiaethau mewn contractau ynghylch cyfran costau'r darparwyr oedd yn sefydlog, effaith y newidiadau hynny oedd gostyngiad sylweddol mewn incwm i CRC ar adeg pan fo'r llwyth achos yn gyffredinol yn cynyddu o ganlyniad i ymestyn goruchwyliaeth ôl-ryddhau i droseddwy'r oedd yn derbyn dedfrydau o lai na 12 mis o garchar. Mae hynny wedi ei gwneud yn anodd iawn i ddarparwyr fuddsoddi mewn datblygu amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau a fwriadwyd, yn cynnwys y cadwyni cyflenwi fyddai'n darparu'r gwasanaethau hynny. O ganlyniad i hynny, nid yw nifer o agweddau o berfformiad CRC, yn cynnwys y gwasanaethau adsefydlu a ddarperir i droseddwy'r a darparu gwasanaethau drwy'r-giât, yn bodloni ein disgwyliadau ac maent wedi cael eu beirniadu gan Brawf HMI. Er mwyn mynd i'r afael â'r newid mewn galw am wasanaethau prawf ac er mwyn galluogi CRC i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau craidd effeithiol, bu i ni addasu contractau yn 2017 er mwyn sicrhau bod taliadau i CRC yn adlewyrchu'n well y costau sefydlog maent wedi eu hysgwyddo wrth ddarparu gwasanaethau i droseddwy'r.
12. Mae'r newidiadau yma mewn galw am wasanaethau prawf hefyd wedi rhoi mwy o bwysau ar yr NPS, ac mae staff wedi bod yn delio â llwyth achos mawr. Mae hynny wedi bod yn fwy amlwg yng Nghymru a Gogledd Ddwyrain Lloegr ble bu cynnydd o 27% a 26% yn ôl eu trefn mewn llwythi achos rhwng 2014 a 2017. Fel ymateb i hynny bu i'r NPS recriwtio dros 800 o swyddogion prawf a swyddogion gwasanaeth prawf newydd yn 2017/18 a bydd yn recriwtio 1,300 arall yn 2018/19.
13. Er ein bod wedi cymryd camau i addasu sut y mae CRC yn cael eu talu am y gwasanaethau maent yn eu darparu, mae cyfran sylweddol o incwm CRC yn parhau i fod yn ddibynnol ar lwyddo i ostwng aildroseddu. Mae hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr leihau nifer y bobl sy'n aildroseddu ac nifer yr aildroseddau a gyflawnir gan y rhai sy'n aildroseddu. Ers rhoddi'r contractau, mae CRC wedi gwneud cynnydd cadarnhaol drwy leihau nifer y bobl sydd yn aildroseddu o ddau bwynt canran, ond rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn amledd aildroseddu. Mae hyn yn duedd

hirdymor a mae'n rhannol yn ganlyniad i lai o bobl yn gyffredinol yn dod i mewn i'r system gyfiawnder troseddol, sydd yn golygu bod y rhai hynny sydd â hanes troseddol hir - sydd yn fwyaf tebygol o aildroseddu, a rhai yn gyson - yn gyfran gynyddol o'r boblogaeth sy'n aildroseddu.

14. Mae'r angen i daclo aildroseddu cyson yn her strategol a gweithredol i'r gwasanaeth prawf, yr heddlu a phartneriaid lleol eraill. Ond i CRC mae hefyd yn her ariannol, gyda chynnydd parhaus mewn amledd aildroseddu yn effeithio ar eu hincwm talu-ar-sail-canlyniadau. Mae'r broblem yn arbennig o aciwt yn ystod blynyddoedd olaf y contractau pan fo talu-ar-sail-canlyniadau yn gyfran gynyddol o gyfanswm eu hincwm. Erbyn hyn, yn hytrach na derbyn taliadau, mae'n amlwg y bydd angen i ddarparwyr dalu swm sylweddol o arian i'r adran yn ystod gweddill blynyddoedd y contractau. Er mwyn rhoi gwell adlewyrchiad o berfformiad CRC o ran amledd aildroseddu, a chefnogi darparwyr i gynnal gwasanaethau prawf effeithiol, rydym yn bwriadu addasu contractau er mwyn mesur CRC yn erbyn gwaelodlin 2015/16 yn hytrach na'r waelodlin a osodwyd yn 2011. Bydd hynny yn sicrhau y bydd darparwyr yn atebol am eu perfformiad ers iddynt reoli gwasanaethau, ac nad ydynt yn cael eu cosbi am dueddiadau cyn hynny.

### **Sefydlogi gwasanaethau prawf**

15. Er ein bod wedi gwneud newidiadau er mwyn gwella sut y caiff contractau CRC eu rhoi ar waith, nid yw'r perfformiad yn gyffredinol yn ddigon da a rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Cyfiawnder yn ei adroddiad diweddar. Mae heriau masnachol arwyddocaol yn dal i fodoli fydd yn tanseilio ymdrechion CRC i wella'r gwasanaethau maent yn eu darparu a'r deilliannau maent yn eu cyflawni. Rydym wedi casglu ein bod erbyn hyn angen camau mwy pendant er mwyn taclo'r problemau gyda chontractau CRC a sefydlogi'r ffordd o ddarparu gwasanaethau prawf. Bydd hynny yn sicrhau y gall staff y gwasanaethau prawf ganolbwyntio ar gyflawni'r dedfrydau a roddwyd gan y llysoedd, gwella ansawdd gwasanaethau rheng flaen a chyfrannu'n llawn tuag at leihau troseddu ac aildroseddu.
16. Yn hytrach na gadael i gontractau CRC presennol barhau tan 2022 rydym yn bwriadu terfynu contractau CRC yn gynnar. Rydym hefyd yn bwriadu cymryd camau nawr i fuddsoddi £22m y flwyddyn er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau drwy'r-giât a chyflwyno safonau gofynnol o ran cyswllt wyneb yn wyneb â throseddwy'r. Gyda'r farchnad byddwn yn archwilio sut y gallwn sefydlu fframwaith fasnachol fwy effeithiol yn y dyfodol fydd yn rhoi gwell ystyriaeth i newidiadau mewn galw am wasanaeth prawf a sicrhau bod darparwyr yn cael digon o dâl am ddarparu'r gwasanaethau craidd sydd yn hanfodol i system brawf lwyddiannus. Hefyd byddwn yn ystyried sut y gallwn ddarparu cyfleoedd i ystod eang o sefydliadau darparu ddefnyddio eu harbenigedd a'u profiad wrth ddarparu gwasanaethau prawf. Fel rhan o'n hymgyngoriad byddwn, gyda rhanddeiliaid, yn archwilio sut y gallwn ddarparu'r cymhellion priodol i'r system brawf ddarparu gwasanaethau o safon a chyfrannu at well deilliannau i droseddwy'r a chymunedau.
17. Wrth ddatblygu trefniadau darparu yn y dyfodol byddwn yn amcanu at:
  - adeiladu ar yr enghreifftiau cadarnhaol lleol o'r NPS a'r CRCau yn arloesi o ran y ffordd orau i ddarparu gwasanaethau;
  - wella ansawdd y gwasanaethau yr ydym eu hangen gan ddarparwyr a hyrwyddo hyder barnwrol yn y system brawf a dedfrydau cymunedol;

- gwella integreiddio'r system drwy gynyddu alinio a gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr; a
- gwella cyfranogiad partneriaid lleol allweddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau prawf wedi eu cydlynu â gwasanaethau eraill ac yn cefnogi blaenoriaethau lleol.

## Goruchwylio troseddwr a chyflawni dedfryd y llys

18. Swyddogaeth gyntaf y gwasanaeth prawf yw cyflawni dedfryd y llys. Mae llys sydd yn rhoi dedfryd gymunedol yn gofyn i'r troseddwr hwnnw gael ei oruchwylio'n briodol, i gyflawni gweithgareddau er mwyn gwneud iawn am ei drosedd, a derbyn y cymorth sydd ei angen arno i roi'r gorau i droseddu. A phe na bai troseddwr yn cydymffurfio â'i ddedfryd, mae'n rhaid cymryd camau gorfodi ar unwaith. Mae gweithredu'r swyddogaeth yma yn ddibynadwy a chyson yn hanfodol i hyder barnwrol a hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder troseddol, ac mae'n dangos i unigolion y byddant yn wynebu canlyniadau am dorri'r gyfraith.
19. Er bod raid i eraill gyfrannu at adsefydlu troseddwr a thaclo'r ystod o broblemau sydd yn achosi aildroseddu, dyletswydd y gwasanaeth prawf yw perfformio'r swyddogaeth graidd yma o ran cyflawni gorchymyn y llys a gweithio gyda throseddwr er mwyn rheoli risg, amddiffyn y cyhoedd a newid eu hymddygiad a'u rhagolygon. Y rhain yw agweddau elfennol y system brawf, ac mae'n allweddol bod darparwr yn eu perfformio'n briodol.

### Asesu a chynllunio dedfrydau effeithiol

20. Man cychwyn pob gwaith prawf effeithiol yw asesiad trwyadl o risgiau ac anghenion y troseddwr. Beth sydd wedi eu harwain i droseddu a pha gamau sydd angen eu cymryd i'w stopio rhag aildroseddu? Ateb y cwestiynau hyn yw sylfaen datblygu cynllun dedfryd fydd yn diogelu dioddefwyr a'r cyhoedd ac yn hyrwyddo adsefydlu.
21. Ar wahanol gamau yn ystod y broses bydd troseddwr yn destun gwahanol fathau o asesiadau:
- pan fo'r llys yn gofyn am adroddiad cyn-dedfrydu, bydd y troseddwr yn cael ei asesu gan staff NPS yn y llys;
  - pan gaiff ei euogfarnu, bydd staff NPS yn penderfynu a ddylai troseddwr aros gyda'r NPS neu ei ddynodi i CRC yn seiliedig ar y risg y bydd yn achosi niwed difrifol (RoSH). Pan na fo'r asesiad hwnnw wedi cael ei gynnal yn y llys fel rhan o waith paratoi adroddiad cyn-dedfrydu, bydd yr NPS yn gwneud hynny ar ôl y ddedfryd;
  - bydd troseddwr fydd yn derbyn dedfryd gymunedol yn cael ei asesu gan y swyddog cyfrifol yn y gymuned yn ystod neu ar ôl apwyntiad cychwynnol; a
  - bydd troseddwr fydd yn cael dedfryd o garchar yn destun dwy weithdrefn sgrinio elfennol ar ôl cyrraedd y carchar. Yna byddant yn cael eu hasesu gan eu rheolwr troseddu yn y gymuned pan gânt eu rhyddhau.
22. Mae'n rhaid i staff prawf ddeall yn iawn beth yw amgylchiadau, risgiau ac anghenion troseddwr, a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod goruchwylio er mwyn clustnodi newidiadau a chynnydd. Hefyd mae angen i ni sicrhau bod yr asesiadau hyn yn gymesur, ein bod yn osgoi dyblygu a'u bod bob amser yn darparu mewnwelediad gwerthfawr sydd yn hysbysu gwaith gyda throseddwr. Rydym eisiau archwilio a allwn aildrefnu prosesau asesu fel bod asesiad cywir a chynhwysfawr yn cael ei gynhyrchu cyn gynted â phosibl yn ystod y broses, a bod hynny wedyn yn dilyn troseddwr drwy gydol ei ddedfryd ac yr adeiledir ar hynny er mwyn hysbysu gweithgareddau gan garchardai a'r gwasanaeth prawf. Yn benodol, rydym eisiau ystyried sut y gallwn

wneud defnydd mwy effeithiol o asesiadau cyn-dedfrydu y mae staff prawf yn eu cynnal yn y llysoedd, a sut y gallwn liflinio'r broses o sgrinio anghenion adsefydlu troseddwr sy'n dod i'r ddalfa. Byddwn hefyd yn ystyried a oes yna amgylchiadau pryd y byddai ymweliadau â'r cartref efallai yn ffordd briodol o asesu a rheoli risgiau troseddwr.

### **Goruchwylio troseddwr a chyswllt**

23. Mae yna swm sylweddol o waith ymchwil<sup>1</sup> sydd yn diffinio pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol rhwng y troseddwr a'r swyddog cyfrifol o ran cefnogi ymatal rhag aildroseddu. Mae'n rhaid i staff prawf feithrin perthynas o ymddiriedaeth, sefydlu ffiniau clir, ac yna meithrin teimlad o obaith yn y troseddwr ar gyfer y dyfodol, ymrwymiad i newid a chydnerthedd i oresgyn siom. Dyna sydd yn gwneud y gwasanaeth prawf yn broffesiwn galwedigaethol.
24. Er mwyn galluogi'r perthnasoedd hynny i ddatblygu, pryd bynnag fo'n bosibl dylai'r un swyddog cyfrifol oruchwylio troseddwr drwy gydol ei ddedfryd. Fel y nododd Prawf HMI yn ei adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2017, nid yw hynny ond yn digwydd yn hanner yr achosion. Er bod hynny'n rhannol o ganlyniad i amryw o ffactorau - e.e. trwybwn y troseddwr gaiff eu rheoli, capasiti swyddogion prawf unigol a throsiant staff - mewn rhai achosion mae model gweithredu darparwyr yn cynnwys trosglwyddo achosion yn ystod oes dedfryd. Byddwn yn gweithio â darparwyr er mwyn ystyried sut y gall trefniadau yn y dyfodol hyrwyddo mwy o ddilyniant mewn perthnasoedd rhwng troseddwr a swyddogion cyfrifol.

### **Cwestiwn 1: Pa gamau allwn eu cymryd er mwyn gwella dilyniant goruchwyliaeth drwy gydol dedfryd troseddwr?**

25. Mae ymgysylltu rheolaidd â throseddwr yn gritigol i oruchwyliaeth effeithiol. Mae'n hanfodol bod staff prawf yn gweld troseddwr yn rheolaidd, a bod math ac ansawdd y cyswllt hwn yn ategu'r trafodaethau heriol ac agored fydd eu hangen yn aml er mwyn asesu risg a hyrwyddo newid.
26. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y math gorau o gyswllt ac amledd cyswllt â throseddwr. Mae Prawf HMI yn bwriadu cynnal ymchwil i'r maes yma, ac rydym yn awyddus i ystyried ffyrdd o ddatblygu cronfa dystiolaeth gadarnach. Nid yw safonau cenedlaethol na'r cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau sydd gennym â'r NPS a CRC yn manylu ar fath ac amledd cyswllt â throseddwr. O ganlyniad i hynny, mae darparwyr prawf wedi datblygu eu modelau eu hunain ar gyfer galluogi ymgysylltu â throseddwr. Mae nifer o ddarparwyr wedi ceisio gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg er mwyn hwyluso goruchwyliaeth o bell, ac mae rhai wedi sefydlu amgylcheddau llai ffurfiol ar gyfer rhyngweithio â throseddwr yn bersonol. Mae adborth gan droseddwr yn awgrymu eu bod yn croesawu ymdrechion i foderneiddio y ffordd mae'r system brawf yn rhyngweithio â nhw.

---

<sup>1</sup> **Shapland, J. Bottoms, A. Farrall, S. McNeill, F. Priede, C. & Robinson, G. (2012b)** "The quality of probation supervision – a literature review: summary of key messages". Research Summary 2/12, London, Ministry of Justice; **Bonta, J. & Andrews, D.A. (2007)** *ibid.* "Strong, meaningful officer-offender relationships"; **Burnett, R. & McNeill, F. (2005)** "The place of the officer-offender relationship in assisting offenders to desist from crime", *Probation Journal*, 52.3, 221–242

27. Er hynny, rydym yn gwybod bod archwiliadau gan Brawf HMI wedi canfod nad yw rhai troseddwr yn cael eu gweld yn ddigon aml ac nad yw apwyntiadau a gollir yn cael eu herio'n briodol bob amser. Er mwyn sicrhau bod gan y Llysoedd hyder bod dedfrydau yn cael eu cyflawni a'u gorfodi, rydym wedi sefydlu canolbwynt gorfodi er mwyn rhannu ymarfer dda ac ysgogi perfformiad, ac rydym yn rhannu data yn rheolaidd â'r farnwriaeth. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon, a nodwyd gan y Pwyllgor Cyfiawnder, na ddylid defnyddio goruchwyliaeth o bell fel yr unig ffordd o oruchwyllo troseddwr, ac y dylai'r amgylchedd ffisegol ble caiff troseddwr eu gweld fod yn addas ar gyfer ysgogi a meithrin ymgysylltu agored ac onest a chynnal cyfrinachedd.
28. Mae yna gydbwysedd i'w sefydlu rhwng gwarchod disgrisiwn proffesiynol staff, hyrwyddo arloesedd a sicrhau bod safonau gofynnol yn cael eu cyrraedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon am rai agweddau o ymarfer dda ac rydym yn cymryd camau i newid contractau CRC er mwyn cyflwyno gofynion sylfaenol i ddarparuwyd o ran cyswllt wyneb yn wyneb bob mis gyda'r swyddog cyfrifol am 12 mis cyntaf gorchymyn neu drwydded troseddwr. Byddwn yn sicrhau bod troseddwr yn cael eu goruchwyllo'n agosach ac yn darparu sylfaen gadarnach ar gyfer clustnodi a gorfodi unrhyw dorri amodau dedfryd.
29. Mae angen i'r llysoedd fod yn hyderus bod dedfrydau cymunedol yn cael eu cyflawni a bod troseddwr yn cael eu goruchwyllo'n briodol. Yn y dyfodol rydym yn bwriadu nodi'r amledd gofynnol a'r math o gyswllt â throseddwr yn fwy clir, yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal ymweliadau â'r cartref o dan rai amgylchiadau. Wrth wneud hynny rydym eisieu ystyried yr amgylchiadau pan fyddai cyswllt o bell yn addas, a'r lleoliadau ble caiff troseddwr eu gweld wyneb yn wyneb a'r camau diogelu ddylid eu sefydlu. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno cymhellion a chamau cadarnach er mwyn hyrwyddo ffocws ar ansawdd rheoli troseddwr, gorfodi troseddau yn effeithiol a chofnodi cyswllt â throseddwr yn gywir.

**Cwestiwn 2: Beth yw'r amledd cyswllt rhwng troseddwr a rheolwr troseddwr sydd fwyaf effeithiol er mwyn hyrwyddo ymgysylltu pwrpasol? Ym mha ffordd ddylai hynny amrywio yn ystod cyfnod o oruchwyliaeth, ac o dan pa amgylchiadau y mae dewisiadau amgen i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn briodol? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau?**

### **Darparu gofynion gwaith di-dâl**

30. Mae gofynion gwaith di-dâl yn gweithredu fel cosb effeithiol i droseddwr, a dyma'r un o'r gofynion a osodir yn fwyaf cyffredin fel rhan o drosedd gymunedol. Yn 2017, gosodwyd 60,000 o ofynion gwaith di-dâl fel rhan o orchmynion dedfrydau cymunedol a gohiriedig. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr wneud iawn am eu trosedd yn uniongyrchol yn y gymuned drwy wneud gwaith sydd yn arwain at fuddion i drigolion lleol, ac mae cynlluniau Gwneud iawn â'r Gymuned yn darparu cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd enwebu prosiectau ar gyfer troseddwr yn y gymuned leol. Mae gwaith di-dâl yn meithrin disgyblaeth a threfn mewn troseddwr, a hefyd gall roi iddynt sgiliau a phrofiad allai eu helpu i ganfod gwaith cyflogedig.
31. Mae darparu gorchmynion gwaith di-dâl yn brydlon yn hanfodol er mwyn enyn hyder mewn effeithlonrwydd dedfrydau cymunedol. Mewn rhai achosion, rydym yn gwybod ei bod yn cymryd gormod o amser i ddarparuwyd gwasanaeth prawf osod troseddwr ar leoliadau gwaith di-dâl, ac ar brydiau mae llefydd yn cael eu gordanysgrifio ac mae'n rhaid gwrthod troseddwr. Rydym hefyd yn ymwybodol bod canfod lleoliadau gwaith

ystyrlon mewn amgylcheddau i ferched yn unig wedi bod yn heriol mewn rhai ardaloedd. Rydym wedi bod yn gweithio gyda CRC er mwyn lleihau ôl-groniadau o orchmynion gwaith di-dâl ac er mwyn sicrhau bod pob troseddwr yn cwblhau'r oriau a bennir gan y llys o fewn 12 mis, ond rydym yn cydnabod bod yna fwy i'w wneud er mwyn gwella perfformiad darparwyr. Byddwn yn cymryd camau er mwyn lleihau nifer yr achlysuron pan fo troseddwr yn cael eu gwrthod mewn lleoliadau naill ai ar y diwrnod neu'n union cyn y diwrnod, a byddwn, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyfiawnder, yn adolygu canllawiau fel, os bydd hynny yn digwydd, y bydd yn cael ei adlewyrchu'n decach yn nifer yr oriau sydd gan droseddwr i'w cwblhau o hyd.

32. Rydym hefyd yn gwybod y gall darparwyr wneud mwy i sicrhau bod lleoliadau gwaith di-dâl yn rhoi cyfleoedd i droseddwr ddatblygu sgiliau gweithle, yn ogystal â gwneud iawn â'r gymuned. Mae contractau presennol CRC yn caniatáu i hyd at 20% o oriau gwaith di-dâl troseddwr fod yn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, ond rydym yn gwybod nad yw'r ddarpariaeth honno yn cael ei defnyddio'n llawn. Rydym eisieu ystyried sut y gallwn hyrwyddo cynlluniau gwaith di-dâl ystyrlon fydd o fudd i gymunedau ac a fydd yn gwella gobeithion troseddwr o ganfod gwaith. Byddwn hefyd yn annog darparwyr yn y dyfodol i ddatblygu perthnasoedd â chyflogwyr lleol ac i ddylunio cynlluniau gwaith di-dâl fydd yn hyrwyddo'r sgiliau sydd eu hangen ar y farchnad lafur leol.

**Cwestiwn 3: Sut allwn hyrwyddo cynlluniau gwaith di-dâl sydd yn gwneud iawn â'r gymuned ac yn arfogi troseddwr â sgiliau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith?**

**Asesiad ôl-ddedfryd**

33. Bu i Ddeddf Adsefydlu Troseddwr 2014 ymestyn goruchwyliaeth drwyddedig i tua 40,000 o droseddwr bob blwyddyn sydd yn cael eu rhyddhau o ddedfrydau o garchar sydd yn llai na 12 mis. Cyn hynny nid oedd y cohort yma o droseddwr - sydd â chyfradd aildroseddu un flwyddyn wedi ei phrofi o 64%, sydd yn gyson uwch o'i gymharu â rhai sydd wedi cael dedfrydau o garchar hirach - yn derbyn cymorth statudol gan y gwasanaeth prawf ar ôl eu rhyddhau. Darparu goruchwyliaeth a chymorth i'r grŵp yma o droseddwr - sydd yn cynnwys rhai o'r troseddwr mwyaf cyson, sydd yn aml yn byw bywydau anhrefnus - yw'r peth iawn i'w wneud os ydym eisieu lleihau aildroseddu.
34. Bu i'r Ddeddf hefyd gyflwyno goruchwyliaeth ôl-ddedfryd fyddai, yn achos troseddwr sydd wedi cael dedfryd o hyd at 2 flynedd yn y carchar, yn dilyn cyfnod eu trwydded. Effaith y newid hwnnw oedd sicrhau y byddai pob troseddwr yn derbyn o leiaf 12 mis o oruchwyliaeth a chymorth gan y gwasanaeth prawf ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r Ddeddf yn egluro mai diben yr oruchwyliaeth ôl-ddedfryd yma yw adsefydlu; er hynny, os bydd troseddwr yn methu â chydymffurfio â'r gofynion goruchwyllo gellir eu rhoi yn y ddalfa am hyd at 14 diwrnod, eu dirwyo, neu roi cyrffiw iddynt neu osod gofyniad gwaith di-dâl fel rhan o orchymyn goruchwyliaeth sydd wedi ei ragosod.
35. Mae goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn rhoi cyfnod safonol i'r gwasanaeth prawf weithio â throseddwr a thaclo'r hyn sydd yn achosi iddo aildroseddu. Er ei bod yn rhy gynnar i gael tystiolaeth glir o effaith hynny, rydym yn bryderus mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd yna'n aml rhwng yr oruchwyliaeth a'r cymorth a roddir o dan drwydded ac yn ystod y cyfnod goruchwyllo ôl-ddedfryd. Rydym yn deall nad yw troseddwr bob amser yn cael eu hysbysu bod cyfnod eu trwydded wedi dod i ben neu am wahanol



oblygiadau methu â chydymffurfio â'r gofynion. Rydym hefyd yn cydnabod y pryder y gall ymdrechion i adsefydlu troseddwyd, pan na chydymffurfir â hwy, gael eu tanseilio gan ragor o gosbau sydd yn bygwth creu mwy o ddiffyg cydymffurfio a mwy o gosbi, nad yw'n gymesur â bwriad adsefydlu goruchwyliaeth ôl-ddedfryd.

36. Rydym eisiau ystyried sut y gall goruchwyliaeth ôl-ddedfryd gyflawni ei nod statudol o adsefydlu troseddwyd. Wrth wneud hynny, rydym yn awyddus i archwilio dewisiadau amgen i gyfnod goruchwyllo anhyblyg o 12 mis (y mae rhai ohonynt yn cael eu nodi yn adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyfiawnder) fyddai'n gwneud i hyd goruchwyliaeth ôl-ddedfryd fod yn fwy cymesur â dedfryd troseddwyd neu eu anghenion adsefydlu. Byddwn hefyd yn ystyried y mathau o gymhellion a chosbau ddylai fod yn gymwys.

**Cwestiwn 4: Pa newidiadau ddylem eu gwneud i drefniadau goruchwyllo ôl-ddedfryd er mwyn eu gwneud yn fwy cymesur a gwella deilliannau adsefydlu? (Efallai y byddech yn dymuno cyfeirio eich ateb i gwestiwn 2.)**

## Adsefydlu troseddwr yn fwy effeithiol

37. Goruchwyllo troseddwr yn briodol yn sylfaen system brawf effeithiol. Drwy gyswllt rheolaidd â throseddwr, a thrwy ddatblygu perthynas ar sail didwylledd, her a chymorth, gall staff prawf asesu risgiau ac anghenion, cynllunio ymyriadau adsefydlu a monitro cynnydd o ran ymatal. Bydd y camau yr ydym wedi eu nodi yn y bennod flaenorol yn gosod y sylfaen ar gyfer lleihau aildroseddu, ond mae'n bwysig bod y gwasanaethau iawn ar gael er mwyn ymateb i anghenion adsefydlu troseddwr, a bod y rhain yn weladwy i'r llysoedd.
38. Bydd yr allwedd i atal aildroseddu yn wahanol yn achos pob troseddwr. I rai bydd yn ymwneud â mynd i'r afael â dyled neu broblem gyffuriau sydd yn ysgogi trosedd meddiangar; yn achos eraill efallai mai dicter neu anallu i reoli emosiynau sydd yn achosi trais; yn achos lleiafrif gall problemau seicolegol neu anhwylderau personoliaeth arwain at ymddygiad niweidiol neu beryglus. Ym mhob achos bydd angen i farn broffesiynol staff prawf asesu achos y troseddu a nodi'r camau ddylid eu cymryd er mwyn rheoli risg a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Mae'n rhaid i weithgaredd adsefydlu gael ei dargedu, fod yn seiliedig ar dystiolaeth a bod yn gymesur ag achosion troseddu a'r risg i droseddau eraill gael eu cyflawni.

### Cyngor i'r llysoedd

39. Dylai'r broses o adsefydlu ddechrau yn y llys cyn bod troseddwr wedi cael ei ddedfrydu hyd yn oed. Yr NPS sydd yn gyfrifol am roi cyngor i ynadon a barnwyr er mwyn eu helpu i benderfynu ar y ddedfryd fwyaf priodol. Bydd staff NPS yn gwneud hynny drwy gynnal asesiad cychwynnol o'r troseddwr gan gynnwys eu hamgylchiadau a'r rheswm dros droseddu. Yna byddant yn cynghori'r llys ar yr opsiynau dedfrydu sydd yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol o ran rheoli risg a thaclo'r problemau sydd yn arwain at droseddu.
40. Yn ystod y blynyddoedd diweddar rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i broses y llys er mwyn sicrhau y delir ag achosion mor effeithlon â phosibl. Yn aml bydd hynny yn golygu bod staff prawf yn llunio adroddiadau cyn dedfrydu ar ffurf byr neu lafar i'r llysoedd ar yr un diwrnod ag y mae'r achos wedi ei restru. Ar gyfer y dioddefwyr a'r troseddwr mae hynny yn arwain at gyfiawnder cyflymach. Er hynny, mae angen i ni sicrhau, pan fo amgylchiadau neu anghenion troseddwr yn gymhleth ac angen archwilio iddynt, bod gan staff prawf yr amser i ymchwilio'n llawn a rhoi cyngor manwl i'r llysoedd fydd yn eu galluogi i roi'r ddedfryd fwyaf priodol ac effeithiol.
41. Mae'r NPS yn gwella ansawdd cyngor cyn dedfrydu i'r llysoedd drwy gyflwyno'r Offeryn Cynigion Effeithiol. Mae hynny yn helpu i staff prawf glustnodi'r ymyriadau sydd yn gweddu i'r risgiau a aseswyd a'r anghenion adsefydlu ym mhob achos, ac mae'n amcanu at gael ei ategu gan wybodaeth fanwl am amrywiaeth o ymyriadau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol. Bydd yr Offeryn Cynigion Effeithiol yn annog staff prawf i gynnig rhaglen achrededig pan fo hynny yn addas, a bydd yn cynnwys manylion am ymyriadau a gweithgareddau ellid eu darparu fel rhan o ofyniad gweithgaredd adsefydlu.
42. Yn y Strategaeth Troseddwr Benywaidd diweddar, bu i ni nodi ein huchelgais i weld llai o ferched yn derbyn dedfrydau o garchar byr, a bu i ni ymrwymo i wneud gwell

defnydd o orchmynion cymunedol effeithiol er mwyn taclo achosion troseddau ymysg merched. Wrth i ni fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma byddwn yn ystyried sut y gall asesiadau yn y llys ac adroddiadau cyn dedfrydu, yn llafar ac ysgrifenedig, gynnwys yn fwy cyson yr holl fanylion perthnasol am amgylchiadau troseddwr, yn cynnwys unrhyw blant dibynnol, problemau iechyd meddwl a hanes o gam-drin domestig.

**Cwestiwn 5: Pa gamau eraill fyddem yn eu cymryd er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd cyngor cyn-dedfrydu a sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau darparwyr prawf?**

43. Mae'n hanfodol bod gan farnwyr ac ynadon hyder llawn yng ngallu'r system brawf i oruchwylio ac adsefydlu troseddwr yn briodol. Mae tystiolaeth yn dangos bod gan ddedfrydau o garchar byr waeth deilliannau aildroseddau na dedfrydau cymunedol, a dylai llysoedd fod yn hyderus y bydd dedfrydau cymunedol yn gwella deilliannau adsefydlu. Mae deddfwriaeth yn atal CRC rhag rhoi cyngor i'r llysoedd, ac rydym yn cydnabod bod diffyg cyswllt uniongyrchol rhwng ynadon a CRC yn ei gwneud yn anoddach i feithrin hyder y llysoedd yn y gwasanaethau y mae'r system brawf yn eu darparu.
44. Rydym wedi ailsefydlu'r Fforwm Dedfrydwr a Phrawf Cenedlaethol er mwyn galluogi ynadon, NPS a CRC, staff llysoedd, erlynwyr ac eraill i ddod at ei gilydd a thrafod yr heriau a'r cyfleoedd i wella. Mae hynny wedi arwain at Gyfarwyddyd Prawf Cyswllt Lleol er mwyn sicrhau bod CRC yn cyfrannu at drafodaeth leol gyda'r llysoedd ynghylch gwasanaethau prawf, a gweithio i wella perthnasedd a chyrhaeddiad Arolwg Dedfrydwr NPS a'r Bwletin Dedfrydwr. Rydym hefyd wedi gweld un perchennog CRC - Achieving Real Change in Communities (ARCC) yn Durham Tees Valley - yn cyd-leoli gweithiwr penodedig gyda thîm llys yr NPS fel y gall adroddiadau cyn dedfrydu gael eu hysbysu gan wybodaeth gyfredol a phwrpasol am yr ymyriadau a'r gwasanaethau sydd ar gael gan y CRC.
45. Rydym yn cydnabod bod nifer o ynadon eisiau gwybod mwy am y mathau o wasanaethau y mae darparwyr prawf lleol yn eu darparu a pha mor effeithiol yw y rhain, yn ogystal â pherfformiad o ran cyflawni a gorfodi dedfrydau. Er mwyn hyrwyddo hyder barnwrol yn y gwasanaethau prawf rydym, gydag ynadon a darparwyr gwasanaethau prawf, eisiau archwilio sut y gallwn atgyfnerthu'r ymgysylltu rhwng llysoedd a CRC. Rydym hefyd yn awyddus i ystyried beth arall allwn ei wneud er mwyn cynyddu hyder mewn dedfrydau cymunedol.

**Cwestiwn 6: Pa gamau allwn eu cymryd i wella ymgysylltu rhwng y llysoedd a CRC?**

**Cwestiwn 7: Ym mha ffyrdd eraill allwn ni atgyfnerthu hyder mewn dedfrydau cymunedol?**

**Gofynion gweithgareddau adsefydlu**

46. Mae deilliannau cadarnhaol wrth adsefydlu troseddwr yn aml yn anodd eu sicrhau, a bydd y gwaith fydd ei angen yn wahanol ar gyfer pob troseddwr. Er hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwaith adsefydlu yn fwy effeithiol pan ei fod wedi ei strwythuro a'i deilwra i arddull dysgu'r troseddwr, pan fo dwyster y cymorth a'r ymyrraeth yn cyfateb i risg y troseddwr o aildroseddau, a phan fo achosion eu troseddau yn cael eu taclo mewn ffordd gydlynus ochr yn ochr ag anghenion ymarferol a chymdeithasol. Cyfrifoldeb y rheolwr troseddwr yw datblygu a gweithredu cynllun

dedfryd sydd yn nodi ac yn dilyniannu'r gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn adsefydlu troseddwr.

47. Cyflwynwyd gofynion gweithgareddau adsefydlu (RAR) yn 2015 ac roedd hynny yn rhoi mwy o ryddid i ddarparwyr gwasanaethau prawf benderfynu ar y gwaith adsefydlu y byddent yn ei wneud â throseddwr. Gosodwyd dros 74,000 RAR fel rhan o orchmynion dedfrydau cymunedol a gohiriedig yn 2017. Ym mhob achos bydd y llys yn pennu uchafswm o ddyddiau o weithgareddau adsefydlu y dylai troseddwr eu cyflawni. Yna cyfrifoldeb y darparwr gwasanaethau prawf yw penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r amser hwnnw. Er ei bod yn briodol i staff prawf ddefnyddio disgrisiwn proffesiynol o ran sut maent yn adsefydlu troseddwr unigol, mae hefyd yn bwysig bod llysoedd yn gweld digon o amrywiaeth o wasanaethau adsefydlu a ddarperir gan wasanaethau prawf a bod ganddynt hyder ynddynt. Ar hyn o bryd mae contractau yn rhoi rhyddid sylweddol i ddarparwyr ddiffinio'r dulliau adsefydlu maent yn eu cynnig, ond rydym yn gwybod bod ansawdd y RAR a ddarperir yn anghyson ac yn aml mae gan farnwyr ac ynadon ddiffyg hyder. Rydym hefyd yn gwybod na all yr NPS bob amser sicrhau'r gwasanaethau adsefydlu y mae ei angen gan CRC ar gyfer y troseddwr y mae'n eu goruchwyllo.
48. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng sicrhau argaeledd cyson o ymyriadau er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion allweddol sy'n gysylltiedig ag aildroseddu a rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr benderfynu sut y byddant yn sicrhau gwell deilliannau. Yn y dyfodol byddwn yn diffinio'n fwy eglur y gwasanaethau y gellir eu darparu fel rhan o RAR er mwyn sicrhau darpariaeth adsefydlu gyson ar draws Cymru a Lloegr. Wrth wneud hynny rydym yn cynnig gofyn i ddarparwyr ddatblygu gwasanaethau RAR dwysedd isel, canolig ac uchel i fod ar gael yn ddibynnol ar ddifrifoldeb ac ystod yr anghenion y mae troseddwr yn eu harddangos. Er mwyn cefnogi cyflwyno'r dull hwn, byddwn yn archwilio mesurau allbwn a deiliant all ein helpu ni a'r llysoedd i fonitro effeithiolrwydd gwaith adsefydlu. Byddwn hefyd yn egluro pa rai o'r gwasanaethau yma y dylai darparwyr gwasanaethau prawf eu darparu, a pha rai y dylid cael mynediad atynt (gyda chymorth gan wasanaethau prawf) drwy wasanaethau prif lif neu wasanaethau eraill sydd ar gael yn lleol.

### **Triniaeth ar gyfer problemau iechyd a chamddefnyddio sylweddau**

49. Mae gan gyfran sylweddol o droseddwr anghenion iechyd sydd angen rhyw fath o driniaeth. Bu i astudiaeth o droseddwr sy'n oedolion sy'n dechrau ar orchmynion cymunedol yn 2009 a 2010 ddangos bod 35% wedi adrodd bod ganddynt ddiagnosis ffurfiol o broblem iechyd meddwl, ac o blith y rhai a gafodd asesiad ffurfiol, canfuwyd bod gan 32% broblem camddefnyddio cyffuriau a bod gan 38% broblem alcohol. Gall gorchmynion dedfrydau cymunedol a gohiriedig helpu i daclo'r problemau hyn drwy gynnwys gofyniad triniaeth iechyd meddwl (MHTR), gofyniad adsefydlu cyffuriau (DHR) neu ofyniad triniaeth alcohol (ATR), ond rydym yn gwybod nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd. Yn 2017 cafodd llai na 1% o'r holl orchmynion cymunedol ofynion triniaeth iechyd meddwl wedi eu hatodi iddynt, roedd gan 5% ofyniad adsefydlu cyffuriau ac roedd gan 3% ofyniad triniaeth alcohol.
50. Er mwyn hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r gofynion hyn rydym wedi gweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GIG Lloegr ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr er mwyn datblygu protocol ar gyfer gofynion triniaethau dedfryd cymunedol. Mae hynny yn nodi'r camau sydd angen eu cymryd gan ymarferwyr iechyd a chyfiawnder er mwyn sicrhau bod llwybrau at driniaeth amserol a chymesur wedi eu sefydlu. Nawr rydym yn

profi'r protocol mewn pum ardal ar draws Lloegr - Birmingham, Sefton, Milton Keynes, Plymouth a Northampton - er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio a'i fod yn cynnig cymorth i aros allan o garchar a thorri'r cylch troseddau i rai sydd ei angen.

### **Bodloni anghenion pob troseddwr**

51. Ni allwn gael system brawf effeithiol heb sicrhau bod pob grŵp o droseddwr yn cael eu rheoli mewn ffordd sydd yn ymdrechu i roi deiliant cyfatebol iddynt. Er y bydd amgylchiadau ac anghenion pob troseddwr unigol yn amrywio, rydym yn gwybod y gall nodweddion neu nodweddion bregus grwpiau penodol o droseddwr olygu y byddant angen ymateb arbenigol neu wedi ei deilwra gan y gwasanaeth prawf a gwasanaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys troseddwr benywaidd - y bydd gan nifer ohonynt ystod o anghenion cymhleth - troseddwr du ac o gefndiroedd lleiafrifol ethnig (BAME), a rhai sydd yn byw ag anabledau dysgu, anhwylderau sbectrum awtistig, a phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
52. Er y dylai darparwyr gwasanaethau prawf geisio mynd i'r afael ag anghenion adsefydlu pob troseddwr, rydym yn gwybod bod yna fylchau ar hyn o bryd yn y ffordd y maen nhw a phartneriaid ehangach yn bodloni anghenion grwpiau penodol o droseddwr a rhai sydd â nodweddion bregus. Er enghraifft, er bod contractau CRC yn cynnwys ymrwymadau penodol mewn perthynas â throseddwr benywaidd - yn cynnwys y dylid cynnig rheolwr troseddwr benywaidd iddynt ac apwyntiadau mewn amgylcheddau merched yn unig - rydym yn gwybod bod partneriaid mewn rhai meysydd wedi cael anhawster buddsoddi mewn darpariaeth benodol megis canolfannau merched.
53. Yn ein Strategaeth Troseddwr Benywaidd, rydym wedi nodi amryw o gamau er mwyn gwella gwasanaethau i ferched yn y system gyfiawnder, yn cynnwys camau er mwyn lleihau'r boblogaeth fenywaidd yn y carchar, gweithredu ymagweddau system gyfan yn rhanbarthol, a chyflwyno hyfforddiant rhywedd benodol yn seiliedig ar drawma ar gyfer gweithio â throseddwr benywaidd. Rydym hefyd wedi neilltuo £5 miliwn ar gyfer darpariaeth gymunedol ar gyfer merched yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
54. Yn ogystal â sicrhau bod canfyddiadau *Adolygiad Lammy* yn cael eu hymgorffori yn ein gwasanaethau i'r dyfodol, byddwn hefyd yn ystyried pryd mae'n fuddiol cynnwys canllawiau penodol neu ddarparu gwasanaethau ar gyfer ethnigrwydd neu unrhyw nodwedd warchoddedig arall, yn ogystal â rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae anogaeth Adroddiad Lammy i "egluro neu ddiwygio" yn golygu y byddwn yn disgwyl i strwythurau a mecanweithiau darparu newydd fonitro data ethnigrwydd yn fanwl, bod yn ymwybodol o wahaniaethau a chroesawu heriau adeiladol. Rydym eisoes yn gweithio gyda CRC er mwyn deall y data presennol a gesglir ac amlygu ymarfer dda presennol.
55. Wrth archwilio opsiynau ar gyfer comisiynu gwasanaethau adsefydlu byddwn yn ystyried i ba raddau y gallent gefnogi cyfranogiad darparwyr arbenigol a darparwyr trydydd sector bychan a bodloni anghenion pob troseddwr yn well.

**Cwestiwn 8: Sut allwn sicrhau bod anghenion penodol a nodweddion bregus gwahanol gohortau o droseddwr yn cael eu bodloni'n well gan y gwasanaeth prawf? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi eich cynigion?**

## Paratoi carcharorion ar gyfer bywyd yn y gymuned

56. Pan fo'r llysoedd yn dedfrydu troseddwr i garchar, maent yn rhoi un ddedfryd sydd â dwy ran iddi: y rhan gyntaf yw'r amser a dreulir yn y carchar, gaiff ei oruchwylio gan lywodraethwr carchar; yr ail ran yw goruchwyliaeth yn y gymuned gaiff ei oruchwylio gan y gwasanaeth prawf. Mae'n hanfodol bod carchardai a'r gwasanaeth prawf yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei gydlynu drwy gydol y ddedfryd, yr adeiladir ar gynnydd yn y carchar yn y gymuned, ac ar adeg ei ryddhau bod y troseddwr wedi ei baratoi ac yn cael cefnogaeth i bontio'n rhydd i'r gymdeithas.

### Gwella gwasanaethau drwy'r-giât

57. Er mwyn helpu a chymell carcharorion i reoli'r pontio o garchardai i'r gymuned ac i beidio ag aildroseddu, mae'n hanfodol bod cynlluniau wedi eu sefydlu cyn eu rhyddhau er mwyn bodloni anghenion elfennol y troseddwr. Mae hynny yn cynnwys sicrhau bod gan droseddwr rhywle i fyw ynddo; sicrhau swydd neu fynediad at fudd-daliadau yn ogystal â chyfrif banc; cael mynediad parhaus at wasanaethau camddefnyddio sylweddau, iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys cofrestru â meddygfa; sefydlu cysylltiadau â theulu; a chael ffyrdd cynhyrchiol o dreulio eu hamser. Y rhain yw'r blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymdeithas a dyfodol o ufuddhau i'r gyfraith.

58. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod troseddwr yn rhy aml yn gadael y carchar heb y cynlluniau yma. Yn 2016/17 rhyddhawyd 30% o oedolion sy'n gadael carchar o dan oruchwyliaeth CRC i lety ansefydlog neu anhysbys ar eu noson gyntaf o ryddid, a dim ond 30% o'r troseddwr yr aseswyd eu bod angen triniaeth barhaus ar gyfer problemau cyffuriau neu alcohol oedd yn ymgysylltu'n llwyddiannus â thriniaeth yn y gymuned o fewn 21 diwrnod o'u rhyddhau o garchar. Rydym hefyd yn gwybod mai dim ond 17% o gyn droseddwr sydd mewn cyflogaeth P45 flwyddyn ar ôl eu rhyddhau. Yn achos troseddwr benywaidd, mae'r deilliannau hynny yn aml yn hyd yn oed gwaeth, a gall materion ehangach megis trais domestig neu rywiol wneud hynny'n waeth.

59. Yn 2015 bu i ni gyflwyno gwasanaeth drwy'r-giât cyffredinol a ddarperir gan CRC er mwyn rhoi cymorth i bawb gaiff ei ryddhau o'r carchar, yn cynnwys rhai ar remand. Ar ôl sgrinio wrth gyrraedd y carchar, mae'r CRC yn datblygu cynllun adsefydlu ar gyfer pob troseddwr y maent wedyn yn ei roi ar waith yn ystod y 12 wythnos cyn eu rhyddhau. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw gwasanaethau drwy'r-giât mewn llawer o ardaloedd yn bodloni ein disgwyliadau, ac yn rhy aml nad yw anghenion adsefydlu troseddwr yn cael eu taclo. Yn hytrach na chael y cymorth sydd ei angen arnynt, mae troseddwr yn aml yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill ac nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau a ddarperir yn y carchardai. Rydym hefyd yn gwybod nad yw rheolwr troseddwr yn y gymuned, sydd yn dechrau goruchwylio troseddwr cyn eu rhyddhau o'r carchar, yn cyfranogi'n ddigonol at y broses adsefydlu.

60. Mae'r problemau gyda gwasanaethau drwy'r-giât yn rhannol yn deillio o'r pwysau ariannol y mae'r CRC wedi ei wynebu ers rhoi'r contractau. Er mwyn gwella'r

ddarpariaeth bresennol byddwn yn buddsoddi £22m y flwyddyn yn ychwanegol fel bod darparwyr yn rhoi lefel uwch o gymorth drwy'r-giât yn ystod 2019 a 2020. Bydd hynny yn golygu y bydd angen i CRC wneud mwy er mwyn helpu i droseddwr oresgyn y rhwystrau rhag adsefydlu'n effeithiol - e.e. helpu gyda cheisiadau am dai a budd-daliadau, cefnogi ymdrechion i ganfod cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant ac agor cyfrif banc.

61. Rydym hefyd yn archwilio tystiolaeth ynghylch a yw rhyddhau carcharorion ar ddydd Gwener yn effeithio ar eu deilliannau adsefydlu. Rydym yn cydnabod bod yna bryderon ynghylch gallu carcharorion sy'n cael eu ryddhau i gael mynediad at y gwasanaethau cymorth maent eu hangen ar ddiwedd yr wythnos waith. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu nad oes yna wahaniaeth ystadegol arwyddocaol mewn deilliannau aildroseddu yn achos carcharorion gaiff eu rhyddhau ar ddydd Gwener. Byddwn yn parhau i archwilio a yw rhyddhau ar ddydd Gwener yn achosi anawsterau penodol i droseddwr, ac os yw hynny'n wir, pa gamau rhesymol allwn eu cymryd er mwyn lliniaru hynny.

### **Gwasanaethau adsefydlu i'r dyfodol**

62. Mae terfynu contractau CRC presennol yn rhoi cyfle i ni ailfeddwl am y cymorth ydym yn ei ddarparu i droseddwr er mwyn eu helpu i ail-setlo'n fwy llwyddiannus yn y gymuned. Er bod pwysau ariannol yn amlwg wedi effeithio ar y ddarpariaeth bresennol, mae'n amlwg hefyd bod cyflwyno gwasanaeth drwy'r-giât cyffredinol wedi golygu bod gweithgaredd adsefydlu yn cael ei ystyried a'i ddarparu fel swyddogaeth ar wahân, yn hytrach na'i fod yn cael ei integreiddio'n briodol yn y system reoli troseddwr. Mae angen i ni wneud mwy o waith gyda charchardai a'r gwasanaeth prawf er mwyn newid hynny.
63. Fel rhan o'n rhaglen diogelwch a diwygio carchardai rydym yn cyflwyno model newydd o reoli troseddwr yn y carchar (OMiC). Bydd hynny yn esbonio rolau a thasgau rheolwr troseddwr ar draws carchardai a'r gymuned, ac yn dileu dyblygu a dryswch. Bydd carcharorion sydd â mwy na 10 mis ar ôl o'u dedfryd yn cael rheolwr troseddwr yn y carchar fydd yn darparu goruchwyliaeth a chymorth yn ystod rhan garchar y ddedfryd, tra bydd y rhai sydd â llai na 10 mis ar ôl o'u dedfryd yn cael eu goruchwyllo gan reolwr troseddwr yn y gymuned. Bydd yr ymagwedd newydd yma yn canolbwyntio ar sicrhau bod staff prawf yn creu perthnasoedd parhaus, proffesiynol a chefnogol gyda throseddwr a gwella'r ffordd o gydlynu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Bydd hefyd yn sicrhau bod yna ffordd fwy effeithiol o drosglwyddo cyfrifoldebau rhwng rheolwr troseddwr yn y carchardai a'r gymuned.
64. O ran ein hymagwedd at adsefydlu yn y dyfodol rydym yn bwriadu adeiladu ar fodel OMiC. Bydd adsefydlu yn cael ei integreiddio â swyddogaethau rheoli troseddwr fel bod yna un person atebol bob amser, sydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch adsefydlu fel rhan o'u cyfrifoldebau ehangach mewn perthynas â rheoli a gweithredu'r cynllun dedfryd. Bydd hynny'n golygu bod materion adsefydlu yn cael eu hystyried ochr yn ochr â materion diogelu'r cyhoedd, bod cymorth yn cael ei deilwra i anghenion a glustnodwyd ac yn cael ei gydlynu â gweithgareddau adsefydlu eraill, a bod y rheolwr troseddwr yn arwain o ran sicrhau mynediad i'r gwasanaethau ehangach sydd eu hangen ar y troseddwr. Wrth i ni ddatblygu ein hymagwedd at adsefydlu yn y dyfodol, byddwn yn ceisio diffinio cyfrifoldebau a disgwyliadau perfformiad y rheolwr troseddwr yn fwy clir, fel y gallwn hyrwyddo safonau cyson ar draws carchardai a darparwyr gwasanaethau prawf yn y gymuned.

65. Byddwn hefyd yn ystyried sut y dylai gwasanaethau adsefydlu i'r dyfodol gael eu teilwra er mwyn bodloni anghenion gwahanol gohortau o droseddwyr, a rhai sydd wedi derbyn dedfrydau o garchar byr yn benodol. Yn 2017, bu i 67% o'r rhai a ddedfrydwyd yn syth i'r ddalfa dderbyn dedfryd o 12 mis neu lai. Rydym yn gwybod bod yr aflonyddwch a achosir gan ddedfrydau o garchar byr - o ran llety, cyflogaeth, budd-daliadau, triniaethau iechyd a pherthnasoedd - yn cyfrannu at aildroseddu yn achos bron i ddwy ran o dair o'r grŵp yma.
66. Er ein bod eisiau sicrhau bod dedfrydau o garchar byr yn cael eu defnyddio pan fo'n angenrheidiol yn unig, byddwn yn ystyried sut y gall gwasanaethau adsefydlu helpu i liniaru effeithiau negyddol dedfrydau o garchar byr drwy sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i gynnal tenantiaethau neu fynediad at fudd-daliadau a pherswadio cyflogwyr i gadw swyddi yn agored. Byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y gall gwasanaethau presennol mewn carchardai, megis gwasanaethau cyswllt teuluoedd, addysg a hyfforddwyd gwaith DWP, gefnogi'r gwaith hwn, neu a ddylai partneriaid lleol gael eu hannog i gomisiynu darpariaeth ategol megis cynlluniau mentora.

**Cwestiwn 9: Ym mha ffordd y dylai gwasanaethau adsefydlu i'r dyfodol fodloni'n well anghenion troseddwr sydd wedi derbyn dedfrydau o garchar byr?**

**Gweithio ar draws y Llywodraeth er mwyn lleihau aildroseddu**

67. Er mwyn sicrhau y gall troseddwr gael mynediad i'r gwasanaethau ehangach sydd eu hangen arnynt er mwyn cefnogi adsefydlu llwyddiannus a lleihau aildroseddu, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu Bwrdd Lleihau Aildroseddu ar draws Whitehall, gaiff ei gadeirio gan Ganghellor Dugaeth Swydd Caerhirfryn, David Lidington. Bydd y grŵp hwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth er mwyn taclo rhai o brif achosion aildroseddu, yn cynnwys cyflogaeth, iechyd a llety. Mae amcanion y grŵp yn cynnwys clustnodi cyfleoedd i gydlynu polisi presennol er mwyn mynd i'r afael ag achosion aildroseddu allweddol a gwella cymorth, ac adeiladu ar y gronfa dystiolaeth sydd yn gysylltiedig ag aildroseddu a'r ymyriadau sydd yn debygol o fod yn effeithiol. Bu i'r grŵp yma gyfarfod am y tro cyntaf ym Mehefin a bydd yn cyfarfod yn chwarterol ar ôl hynny er mwyn symud gwaith trawslywodraethol yn ei flaen er mwy taclo achosion aildroseddu. Mae'n cael ei fynychu gan weinidogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Cabinet, Swyddfa Cymru, Trysorlys EM, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yr Adran Addysg a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
68. Rydym yn gwybod bod llety yn brin mewn nifer o rannau o Gymru a Lloegr, a bod hynny yn broblem benodol i droseddwr. Er mwyn sicrhau bod carchardai a'r gwasanaeth prawf yn gwneud popeth o fewn eu gallu i oresgyn hynny, rydym yn peilota mesur perfformiad newydd ar y cyd er mwyn sicrhau bod carchardai a'r gwasanaeth prawf yn atebol am nifer y carcharorion fydd yn derbyn llety diogel ar ôl eu rhyddhau. Hefyd, mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau yn Lloegr, drwy Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017, i roi dyletswydd newydd ar garchardai a'r gwasanaeth prawf i atgyfeirio rhywun y maent yn ei gefnogi sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref at yr awdurdod lleol. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gymryd camau rhesymol er mwyn atal rhywun rhag bod yn ddigartref ac i helpu y rhai sydd yn ddigartref i ganfod llety. Mae'r ddwy ddyletswydd yma yn gymwys beth bynnag fo'r anghenion blaenoriaethol neu os yw'r unigolyn yn ddigartref o'i wirfodd neu beidio, ac nid yw'r ddyletswydd gyntaf yn ddibynnol ar gysylltiad lleol yn yr ardal.



69. Fodd bynnag, fel y nododd y Pwyllgor Cyfiawnder yn ei adroddiad diweddar, ceir tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol wedi cyflwyno meini prawf er mwyn lleihau'r flaenoriaeth maent yn ei roi i geisiadau am dai maent yn eu derbyn gan gyn droseddwyr ar y sail eu bod wedi gwneud eu hunain yn ddigartref yn fwriadol. Felly rydym eisiau gweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill, ynghyd â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod troseddwyr yn cael dêl deg a'u bod yn derbyn yr un cymorth ag aelodau eraill y gymuned i ganfod rhywle diogel i fyw ynddo.
70. Rydym hefyd yn gwybod bod sicrhau a chynnal cyflogaeth yn gysylltiedig â thebygolrwydd is o aildroseddu. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth addysg a chyflogaeth ar gyfer carchardai. Mae'n cynnwys ffocws newydd ar gefnogi carcharorion pan gânt eu rhyddhau, yn cynnwys lansio 'Rhwydwaith Dyfodol Newydd' er mwyn ymgysylltu a pherswadio cyflogwyr i gymryd cyn garcharorion, archwilio cymhellion i garchardai a darparwyr gwasanaethau prawf i gydweithio yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi troseddwyr i ganfod cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur, megis nifer y swyddi sydd ar gael a'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn targedu sectorau penodol.
71. Yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd, bu i ni amlinellu ein bwriad i ddatblygu Concordat Cenedlaethol ar droseddwyr benywaidd. Bydd hynny yn nodi sut y dylai partneriaid leol a gwasanaethau gydweithio mewn partneriaeth er mwyn clustnodi ac ymateb i anghenion merched sydd yn aml yn lluosog a chymhleth, wrth iddynt symud drwy'r system gyfiawnder troseddol. Rydym yn amcanu at gyhoeddi hynny erbyn diwedd y flwyddyn.

## Gweithlu â'r hyfforddiant a'r sgiliau priodol

72. Mae'r gwasanaeth prawf yn fusnes sy'n ymwneud â phobl. Mae'n wasanaeth sydd wedi ei adeiladu ar staff ymroddedig ac angerddol sydd â'r sgiliau a'r profiad i ymgysylltu â throseddwy, eu hysgogi i herio a rheoli'r risgiau maent yn eu hachosi i ddioddefwyr a'r cyhoedd. Mae ymrwymiad parhaus y gweithlu i wasanaeth cyhoeddus wedi bod yn rhan hanfodol o gynnal safonau ac arwain y system drwy gyfnod o newid arwyddocaol. Staff yw ased pennaf y system brawf, ac mae angen i ni wneud popeth y gallwn ei wneud er mwyn sicrhau eu bod wedi eu harfogi'n briodol i wneud eu gwaith a'u bod yn cael cyfleoedd i wella eu sgiliau proffesiynol a datblygu gyrfaoedd gwerthfawr.

### *Recriwtio a chynllunio gweithlu*

73. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal gweithlu prawf sydd â'r nifer priodol o bobl sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol. Rydym yn gwybod bod staff wedi wynebu heriau sylweddol wrth i'r system brawf gymryd cyfrifoldeb am oruchwylio 40,000 yn ychwanegol o droseddwy gaiff eu rhyddhau o garchar bob blwyddyn, ac wrth i drefniadau a strwythurau gweithio newydd gael eu hychwanegu ers sefydlu'r NPS a CRC. Mae gan nifer lwythi achos mawr, sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt fuddsoddi'r amser sydd ei angen arnynt o ran gweithio wyneb yn wyneb gyda throseddwy.

74. Fel ymateb i nifer cynyddol o droseddwy risg uwch, mae'r NPS wedi bod yn recriwtio a hyfforddi nifer fawr o staff. Recriwtiwyd dros 800 o swyddogion prawf a swyddogion gwasanaeth prawf yn 2017-1, a bydd 1,300 arall yn cael eu recriwtio yn 2018-19. Rydym hefyd wedi cytuno â newidiadau i gontractau CRC er mwyn cynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau drwy'r-giât a sicrhau bod staff yn gallu gwneud mwy i helpu troseddwy oresgyn y rhwystrau rhag adsefydlu llwyddiannus.

75. Er hynny, rydym yn gwybod bod yr NPS a CRC wedi cael anhawster denu staff newydd mewn rhai ardaloedd. Rydym eisoes wedi ymestyn y meini prawf er mwyn ymuno â'r gwasanaeth prawf fel bod y rhai sydd â'r sgiliau a'r cymhelliant i weithio â throseddwy yn gallu gwneud hynny. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith y newid hwn, rydym yn gwybod ein bod yn dechrau denu mwy o bobl i'r gwasanaeth prawf. Bu i dros 4,000 ymgeisio i ymuno â'r gwasanaeth yn y rownd recriwtio mwyaf diweddar, o'i gymharu â thua 750 cyn hynny.

76. Rydym yn datblygu strategaeth gweithlu sydd yn edrych ar draws yr holl system ac yn sicrhau y gall darparwyr recriwtio a datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau o safon uchel i'r llysoedd, dioddefwyr a throseddwy. Er mwyn gwneud hynny rydym yn cymryd camau i wella ystod ac ansawdd y data yr ydym yn ei dderbyn gan ddarparwyr ynghylch gwneuthuriad eu gweithluoedd, yn cynnwys nifer y staff, eu graddau a'r rhai sydd yn y broses o ymgymryd â chymwysterau proffesiynol. Byddwn yn defnyddio'r data yma i datblygu offeryn cynllunio gweithlu traws-system fydd yn ein helpu i wneud asesiadau mwy hirdymor o gapasiti'r system a nifer y staff cymwys. Hefyd bydd gan arweinwyr gwasanaeth prawf HMPs (gweler y bennod ar wella integreiddio'r system) rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod cynlluniau gweithlu darparwyr ym mhob rhanbarth yn gydlynol, yn hyrwyddo ymagwedd gydlynus tuag at recriwtio a datblygu, ac yn ymateb i flaenoriaethau lleol a deinameg y farchnad lafur. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon byddwn yn ceisio codi proffil gwaith prawf fel

bod y cyhoedd yn cydnabod y gwaith caled a gwerthfawr y mae staff prawf yn ei wneud bob dydd.

### *Datblygu sgiliau'r gweithlu*

77. Mae'n hanfodol bod gan staff prawf y sgiliau priodol ar gyfer y rolau maent yn eu perfformio. Bydd staff sydd yn cynghori ynadon a barnwyr mewn llysoedd angen gwahanol sgiliau i'r rhai sy'n darparu ymyriadau arbenigol neu rai sy'n gweithio gyda dioddefwyr. Wrth i nifer fawr o weithwyr newydd ymuno â'r proffesiwn, ac wrth i ni geisio adeiladu capasiti a chydnerthedd y gweithlu, mae arfogi staff â'r sgiliau priodol yn allweddol. Hefyd mae'n rhaid i ni sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn parhau i gael ei ystyried fel proffesiwn gwerth chweil sydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol ac i ddatblygu gyrfaedd hirdymor.
78. Fel cydnabyddiaeth i bwysigrwydd mynediad staff at hyfforddiant priodol, bydd ein strategaeth gweithlu yn nodi'n fwy clir beth yw'r hyfforddiant, sgiliau a chymwysterau y bydd eu hangen ar staff ar gyfer y gwahanol rolau. Wrth ddiffinio'r gofynion hyn rydym yn awyddus i siarad â staff, darparwyr ac undebau er mwyn archwilio rôl swyddogion cyfrifol, y sgiliau a'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt, a'r gwahaniaethau sy'n gymwys i reoli'r gwahanol fathau o achosion a throeddwy. Hefyd rydym yn bwriadu datblygu fframwaith o hyfforddiant cydnabyddedig i staff prawf fel ein bod yn cynnal safonau ar draws y proffesiwn, a rhoi ffyrdd i staff dystiolaethu am sgiliau trosglwyddadwy wrth iddynt ddatblygu eu gyrfaedd, tra'n caniatáu cwmplas i ddarparwyr ddatblygu eu dulliau hyfforddi a datblygu eu hunain.

### **Cwestiwn 10: Pa sgiliau, hyfforddiant neu gymwysterau yr ydych yn credu sydd yn hanfodol ar gyfer swyddogion cyfrifol a awdurdodir i ddarparu gwasanaethau prawf, a sut ydych yn credu y mae'r rhain yn newid yn ddibynnol ar y mathau o droeddwy y mae staff yn gweithio gyda nhw?**

79. Mae gwaith prawf yn ymwneud â gwneud penderfyniadau anodd yn aml ynglŷn â'r risgiau y mae troeddwr yn ei achosi a'r camau y dylid eu cymryd fel ymateb i hynny. I wneud hynny mae angen sgiliau, profiad a phroffesiynoldeb. Mae'n hanfodol y gall darparwyr gwasanaethau prawf ddangos bod y rhai sydd yn gwneud y penderfyniad hyn yn addas i wneud hynny. Er mwyn diogelu darparwyr a staff, rydym yn cynnig datblygu cofrestr broffesiynol genedlaethol fel ffordd o gynnal un rhestr o'r aelodau staff hynny sydd wedi eu hyfforddi a'u hawdurdodi i ddarparu gwasanaethau prawf. Yn ogystal â chydabod arbenigedd a gwerth gwaith prawf, bydd y gofrestr yn sicrhau na all staff nad oes ganddynt y cymwysterau angenrheidiol, sydd yn destun prosesau disgyblu perthnasol, neu sydd eisoes wedi eu diswyddo am berfformiad gwael neu gamymddygiad, ymgymryd â rolau nad ydynt yn addas ar eu cyfer. Felly byddwn yn datblygu, mewn ymgynghoriad â staff, darparwyr ac undebau, proses y gellir ei defnyddio, yn ddibynnol ar gamau diogelu priodol, i dynnu staff oddi ar y gofrestr a diddymu eu hawdurdod i ymarfer o dan rai amgylchiadau.

### **Cwestiwn 11: Sut fydddech yn gweld cofrestr broffesiynol genedlaethol yn gweithredu ar draws yr holl ddarparwyr - y sector cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys staff asiantaeth - a pha wybodaeth y dylai gynnwys?**


## Gwella integreiddio'r system

80. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth prawf i'r llysoedd, dioddefwyr a throsteddwyr fod yn ddi-dor a chydlynol. Er mwyn cyflawni hynny, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau prawf yn gweithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod risg troseddwr yn cael ei reoli a'i esgoli yn briodol, bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid yn effeithlon, a bod perthnasoedd effeithiol â phartneriaid lleol yn cael eu datblygu.
81. Trefnwyd i'r system brawf bresennol fod yn un Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sydd wedi ei rannu i chwe adran yn Lloegr a NPS Cymru, a 21 CRC sydd yn eiddo i wyth rhiant gwmni. Er bod yna feysydd o ymarfer dda, rydym yn gwybod bod yna rai rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol a chyfathrebu yn y model presennol, ac nad yw'r NPS yn comisiynu gwasanaethau gan CRC i'r graddau y disgwyliwyd yn wreiddiol.

## Cynyddu alinio rhwng yr NPS a CRC

82. Mae strwythurau presennol yn golygu bod cydweithio rhwng yr NPS a CRC yn anodd. Er bod NPS Cymru ac adrannau NPS yn Llundain yn rhannu'r un ffiniau â CRC unigol yn yr ardaloedd hynny, mae adrannau NPS mewn mannau eraill yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o CRCau. Er enghraifft, mae adran Gogledd Ddwyrain Lloegr yr NPS yn gweithio yn yr un ardal â phum CRC sy'n eiddo i dri rhiant gwmni gwahanol, ac mae gan bob un eu model gweithredu penodol ei hun. Mae hynny yn creu amgylchedd gweithredu cymhleth i staff gwasanaeth prawf yn yr NPS a'r CRC.
83. Er mwyn cynyddu cydlyniant ac effeithlonrwydd system, rydym yn bwriadu rhannu'r dull o ddarparu gwasanaethau prawf yn Lloegr i 10 rhanbarth. Bydd hynny yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau prawf yn canolbwyntio ar gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau prawf o safon yn yr un ardal, a bydd hynny yn annog mwy o gydweithredu wrth amcanu at greu gwelliannau ac effeithlonrwydd gweithredol. Bydd yna fanteision clir wrth i ddarparwyr gytuno ar ymateb strategol ar y cyd i anghenion troseddwr yn y rhanbarth, a bydd hynny yn ei dro yn arwain at berthnasoedd mwy cydlynol ac effeithiol â phartneriaid strategol ehangach. Wrth lunio'r ffiniau ar gyfer y 10 rhanbarth prawf arfaethedig (gweler y map isod), rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd cysylltiadau strategol cryf gyda Chomisiynwyr Yr Heddlu a Throseddu (PCC) drwy sicrhau nad yw rhanbarthau yn torri ar draws ardaloedd yr heddluoedd.
84. Ar lefel ymarferol, dylai 10 ardal brawf yn Lloegr helpu i symleiddio'r system a dileu'r broblem bresennol o ddarparwyr unigol yn gweithredu ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol. Mae llai o ardaloedd darparu sy'n fwy o faint yn cynnig y cyfle i symleiddio'r ffordd o ddarparu gwasanaethau adsefydlu, oherwydd dylai fod yn bosibl lleihau cyfran y carchardai adsefydlu sy'n rhyddhau i fwy nag un ardal. Mae hynny hefyd yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsteddwyr symud o gwmpas y wlad - er enghraifft, bydd yna lai o achosion pan fo newid cyfeiriad yn golygu trosglwyddo achos yn ffurfiol rhwng darparwyr.

### Proposed future structure of probation areas



85. Mae yna rai heriau yn gysylltiedig â ffurfio llai o ardaloedd prawf. Mae adsefydlu ac ailintegreiddio troseddwr yn golygu bod angen ymateb lleol ar y cyd, felly bydd yn bwysig bod strwythurau darparu o fewn pob rhanbarth brawf yn darparu gwasanaeth sy'n addas yn lleol ac yn galluogi darparwyr i ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid a strwythurau lleol, yn cynnwys yr heddlu a PCC, awdurdodau lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, y llysoedd, carchardai a byrddau cyfiawnder troseddol lleol, a gwasanaethau iechyd a chomisiynwyr. Byddwn yn defnyddio enghreifftiau o ymarfer lleol gan ddarparwyr presennol ac yn ystyried yn ofalus y gofynion yr ydym yn eu rhoi ar ddarparwyr mewn trefniadau yn y dyfodol.

86. Er mwyn cefnogi system fwy gydlynol, byddwn hefyd yn datblygu atebolrwydd fwy clir am ddarparu gwasanaethau prawf ym mhob rhanbarth. Rydym yn cynnig bod un uwch arweinydd HMPPS yn gyfrifol am gynrychioli'r adran ac am oruchwylio'r gwasanaeth prawf mewn rhanbarth, ac mai eu rôl nhw yw ysgogi darparu gwasanaethau integredig sydd wedi eu teilwra yn lleol sydd yn hyrwyddo effeithlonrwydd a gweithio effeithiol mewn partneriaeth gydag amryw o wasanaethau a chomisiynwyr lleol eraill.

**Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno bod newidiadau i strwythur ac arweinyddiaeth ardaloedd prawf yn ddigon i greu integreiddio ar draws holl ddarparwyr gwasanaethau prawf?**

**Gwella TG a chyfnewid data**

87. Mae cyfnewid data yn effeithiol yn elfen hanfodol o system brawf integredig. Mae cofnodi, storio a rhannu data rhwng y gwasanaeth prawf, carchardai a'u partneriaid yn rhan hanfodol o reoli troseddwr yn llwyddiannus. Er mwyn galluogi arloesedd o ran sut yr ydym yn cyflawni hynny, rhoddwyd cyfle i CRC ddatblygu a gweithredu eu hofferynnau rheoli achos ac asesu risg eu hunain. Fodd bynnag, mae alinio systemau newydd darparwyr â systemau craidd yr adran wedi bod yn fwy cymhleth na'r disgwyl, ac ar hyn o bryd mae pob CRC yn parhau i ddefnyddio'r un systemau â'r NPS, er y bydd rhai yn fuan yn symud i'w systemau a'u hoffer rheoli achosion eu hunain er mwyn cefnogi asesu risg ac anghenion.

88. Er mwyn cefnogi system fwy syml a mwy integredig rydym eisiau i ddarparwyr gael mynediad i systemau canolog effeithiol, tra'n parhau i gael y cyfle i arloesi a datblygu offer newydd. Bydd hynny yn golygu y bydd rhannu data yn haws ac yn sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn gyson ar draws pob darparwr. Er mwyn cyflawni hynny rydym yn buddsoddi yn ein systemau er mwyn gwella eu galluoigrwydd a chynyddu effeithlonrwydd ar draws carchardai a'r gwasanaeth prawf. Yn y dyfodol rydym yn disgwyl y bydd pob darparwr yn defnyddio System Asesu Troseddwyr (OAS) yr adran ar gyfer asesu risg. Byddwn yn moderneiddio ein galluoigrwydd rhannu data fel bod ein systemau yn gydnaws â thechnolegau digidol newydd ac yn rhoi opsiwn i ddarparwyr eu hategu drwy ddatblygu eu hoffer eu hunain, gyda'r bwriad y bydd buddion ehangach hynny yn cael eu rhannu ar draws y system.

### **Comisiynu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu**

89. O dan y model presennol, bwriedir i CRC arwain o ran datblygu a darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu. Maent yn gyfrifol am greu cadwyni cyflenwi o ddarparwyr lleol sydd yn darparu gwasanaethau arbenigol er mwyn lleihau trosedd, y gall yr NPS a chomisiynwyr posibl eraill (megis PCC) gael mynediad atynt drwy'r "cerdyn cyfradd". Mae'r cerdyn cyfradd yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael gan bob CRC a chost yr uned ar gyfer eu prynu.

90. Fodd bynnag, mae rhai CRC wedi cael anhawster buddsoddi yn natblygiad eu cadwyni cyflenwi. Yn aml maent wedi gorfod bodloni ar ddarparu'r gwasanaethau eu hunain, ac mae hynny wedi arwain at oblygiadau i ystod y gwasanaethau y maent wedi gallu eu cynnig drwy'r cerdyn cyfradd. O ganlyniad i hynny rydym wedi gweld defnydd llawer is na'r disgwyl o wasanaethau cerdyn cyfradd gan yr NPS, ac yn hytrach mae'r NPS hefyd wedi dewis darparu gwasanaethau eu hunain neu ddibynnu ar fynediad at wasanaethau lleol neu gyffredinol presennol er mwyn bodloni anghenion troseddwr. Rydym hefyd wedi clywed gan PCCau am eu hanawsterau gyda'r cerdyn cyfradd, ac nad yw'r mecanwaith yn briodol ar gyfer gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn gwasanaethau, pryd y byddant yn cynnal cystadleuaeth agored ac angen i ymgeiswyr arfaethedig gyflwyno ceisiadau am y gwaith.

91. Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, comisiynwyr a darparwyr lleol eraill, rydym eisiau archwilio'r ffordd orau i'r gwasanaeth prawf sicrhau mynediad at yr ystod o wasanaethau adsefydlu sydd ei angen arno. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried a ellid gwneud i ddull presennol cadwyni cyflenwi CRC o ddarparu gwasanaethau adsefydlu weithio'n fwy effeithiol, neu a ddylid datblygu dulliau eraill.

92. Ein nod yw hyrwyddo dull mwy cydweithredol o ddylunio a darparu'r gwasanaethau ehangach sydd yn allweddol ar gyfer cefnogi adsefydlu ac ailsefydlu troseddwr (fel yr amlinellir hynny yn y bennod nesaf 'Gweithio â Phartneriaid'). Mae creu 10 ardal brawf yn gyfle i ddarparwyr ddod at ei gilydd i ddiffinio y gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen arnynt ac i gydweithredu o ran comisiynu'r rhain fel eu bod yn ategu gwasanaethau lleol presennol ac yn defnyddio sgiliau a chapasiti darparwyr lleol o'r sector cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Rydym yn credu y gallai'r uwch arweinydd HMPPS ym mhob ardal chwarae rôl allweddol o ran hwyluso'r broses gomisiynu hon drwy arwain ymgysylltu â chomisiynwyr a gwasanaethau lleol fel bod gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yn cydweddu â chyd-destun y gwasanaethau a ddarperir yn lleol.

**Cwestiwn 13:** Sut y gall darparwyr gwasanaethau prawf sicrhau mynediad effeithiol at yr ystod o wasanaethau adsefydlu sydd eu hangen ar gyfer troseddwyr, a sut all partneriaid lleol allweddol gyfrannu tuag at gyflawni hynny?

## Gweithio'n agosach â phartneriaid

93. Bydd y math o gymorth neu ymyrraeth fydd ei angen ar unigolyn er mwyn rhoi'r gorau i droseddu yn amrywio o un achos i'r llall. Ar brydiau bydd gan staff prawf yr holl sgiliau a'r profiad sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi troseddu - er enghraifft, drwy ddarparu rhaglenni ymddygiad troseddol arbenigol. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion bydd y ffactorau sydd yn arwain at ymddygiad troseddol yn gymhleth ac amrywiol - digartrefedd neu dai anaddas, diweithdra neu broblemau gyda chamddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl (neu gyfuniad o nifer o'r ffactorau hyn) – a bydd angen cymorth ychwanegol neu arbenigol gan wasanaethau y tu hwnt i'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n rhaid i adsefydlu fod yn gyfrifoldeb ar y cyd, ac mae swyddogion prawf yn ddibynnol ar wasanaethau ehangach yn ymgysylltu â throseddwyr er mwyn eu helpu i oresgyn eu problemau. Felly, mae gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau lleol, yn cynnwys awdurdodau lleol, PCC, Canolfannau Gwaith, Grwpiau Comisiynu Clinigol a'r sector gwirfoddol, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan droseddwyr fynediad at wasanaethau fydd yn arwain at newidiadau ystyrlon i'w bywydau.
94. Bu i ni gydnabod pwysigrwydd partneriaethau lleol o dan ddiwygiadau *Trawsnewid Adsefydlu*. Disgwylid i'r NPS a CRC sefydlu protocolau lleol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a bwriadwyd i fwy o ffocws ar greu gostyngiadau mewn aildroseddu hyrwyddo ymgysylltu rhwng CRC a gwasanaethau lleol a defnydd ohonynt. Fodd bynnag, bu i'r diwygiadau hefyd efallai greu camsyniad y byddai'r gwasanaeth prawf yn gallu darparu neu ariannu gwasanaethau ymhell y tu hwnt i rôl statudol graidd y gwasanaeth prawf - er enghraifft, drwy ddarparu llety i droseddwyr. Mae angen i ni fod yn glir bod gan bartneriaid eraill gyfrifoldebau statudol presennol yn yr ardaloedd hynny, ac nad yw gwasanaethau prawf yn cael eu hariannu na'u harfogi i ddarparu'r mathau yma o wasanaethau ychwanegol, ond i hwyluso mynediad atynt.
95. Wrth siapio trefniadau ar gyfer y dyfodol, rydym eisiau bod yn fwy eglur am y gwasanaethau y mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethu prawf eu darparu, pryd y gallent geisio *comisiynu* gwasanaethau gan eraill (yn cynnwys y sector gwirfoddol) er mwyn helaethu'r gwasanaeth a gynigir i droseddwyr, a phryd y dylent geisio *dylanwadu* ar y gwasanaethau lleol a ddarperir er mwyn sicrhau bod yna fynediad priodol ar gyfer yr unigolion maent yn gweithio gyda nhw. Drwy sicrhau bod yna fwy o eglurder ynghylch y rolau a'r cyfrifoldebau hynny, byddwn yn amcanu at greu mwy o gyfleoedd i gydweithredu gyda phartneriaid yn y sector statudol a gwirfoddol er mwyn cyd-ddylunio a chydgomisiynu'r swîth ehangach o wasanaethau sydd eu hangen er mwyn cefnogi adsefydlu.

### Rôl fwy clir i'r sector gwirfoddol

96. Roedd diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu yn amcanu at gynnig darparu gwasanaethau prawf craidd i ystod ehangach o bartneriaid, a bu i ni gymryd nifer o gamau er mwyn sicrhau y gallai'r sector gwirfoddol gymryd rhan. Bu i ni gynyddu nifer yr ardaloedd pecyn cyswllt er mwyn annog cynigion gan y sector gwirfoddol, a bu i ni weithio â Swyddfa'r Cabinet ac eraill er mwyn cefnogi'r sector drwy'r broses gomisiynu. Un o'r wyth sefydliad llwyddiannus oedd ARCC yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, sydd yn gonsortium dielw o sefydliadau, yn cynnwys sefydliad cydfuddiannol



gaiff ei redeg gan staff, grwpiau o'r sector gwirfoddol a thri awdurdod lleol. Mae gan y rhan fwyaf o'n rhiant sefydliadau eraill bartneriaid darparu annatod yn y sector gwirfoddol, neu maent yn defnyddio sefydliadau o'r sector gwirfoddol drwy eu cadwyni cyflenwi.

97. Ond, rydym yn wybod y bu heriau hefyd i'r sector gwirfoddol. Yn rhannol, mae'r heriau yma yn deillio o'r pwysau ariannol y mae CRC wedi ei wynebu, sydd wedi cyfyngu ar fuddsoddiad mewn darpariaeth adsefydlu a gwasanaethau arbenigol. Rydym yn gwybod y bu'n arbennig o anodd i sefydliadau llai yn y sector gwirfoddol ymgysylltu â darparu gwasanaethau, a bod nifer o sefydliadau o bob maint yn y sector gwirfoddol wedi cael anhawster gweithredu oherwydd argaeledd cyllid. Mae hynny wedi achosi i nifer addasu'r gwasanaethau a gynigir ganddynt neu i ategu eu gwasanaethau gydag incwm o ffrydiau referniw eraill. Hefyd, mae cyflwyno Cytundeb Partneriaeth Safonol y Diwydiant (ISPA), er bod y bwriad yn un da, hefyd wedi bod yn orfiwrocraidd yn ymarferol. Fel yr amlygodd y Pwyllgor Cyfiawnder yn ei adroddiad diweddar, mae'r ffactorau hyn wedi effeithio ar ansawdd ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael i droseddwr.
98. Mewn trefniadau yn y dyfodol rydym eisiau gwneud llawer mwy er mwyn hwyluso cyfranogiad y sector gwirfoddol o ran darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu, yn arbennig pan fônt yn gallu cynnig darpariaeth arbenigol. Drwy ymgysylltu â Grŵp Cynghori'r Trydydd Sector, Lleihau Aildroseddu, rydym wedi gwrando ar gynigion ynghylch sut y gallwn gyflawni hynny, a nawr rydym eisiau ymgynghori'n fwy helaeth gyda'r sector, a gyda chyllidwyr ymddiriedolaethau dyngarol a sefydliadau cyllid cymdeithasol.
99. Un ymagwedd bosib fyddai sefydlu fframweithiau ar wahân neu system brynu ddeinamig ar lefel genedlaethol neu ranbarthol ar gyfer darparu gwasanaethau adsefydlu, megis cymorth llety neu ddarparu gwasanaethau penodol ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed. Gallai hynny alluogi i ddarparwyr yn y sector gwirfoddol sydd yn bodloni meini prawf penodol sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael yn uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaethau prawf neu gomisiynwyr eraill heb fod angen iddynt gymryd rhan mewn proses gaffael ar wahân bob tro. Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 wedi helpu i wneud y broses o sefydlu systemau prynu deinamig yn llai beichus i awdurdodau contractio a darparwyr arfaethedig, ac yn ddiweddar mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi datblygu system o'r fath er mwyn galluogi i lywodraethwyr carchardai gomisiynu gwasanaethau addysg yn lleol. Er ein bod yn cydnabod na fydd y fecanwaith hon efallai yn briodol ar gyfer pob gwasanaeth, rydym eisiau archwilio rhinweddau model o'r fath gyda darparwyr posibl a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

**Cwestiwn 14: Sut allwn sicrhau bod darparwyr y sector gwirfoddol yn ymgysylltu'n well â dylunio a darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu ar gyfer troseddwr yn y gymuned?**

### **Rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

100. Pan fu i ni weithredu diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu, disgwyliwyd y byddai PCCau yn comisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan CRC, gan hyrwyddo mwy o integreiddio â strwythurau presennol. Cafwyd enghreifftiau o ymarfer addawol, ac rydym wedi gweld llond llaw o enghreifftiau pan fo PCCau wedi comisiynu gwasanaethau gan CRCau, ond nid yw ein huchelgais wreiddiol wedi cael ei gwireddu i'r graddau a obeithiwyd. Mae peth o hynny wedi bod o ganlyniad i bwysau

ariannol ar CRCau, ac effaith anochel hynny ar ddatblygiad eu cadwyni cyflenwi a buddsoddi mewn gwasanaethau adsefydlu ychwanegol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld amharodrwydd ar ran comisiynwyr i brynu gwasanaethau gan CRCau, ac rydym yn tybio bod hynny yn deillio o bryderon am berfformiad gweithredol a dryswch ynghylch beth sy'n bosibl i CRCau eu darparu.

101. Wrth i ni symud at system gyda llai o ardaloedd prawf, bydd PCCau yn dod yn rhan bwysicach o sicrhau bod gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yn parhau i gael eu hintegreiddio'n lleol, ac rydym yn awyddus i weld PCCau yn chwarae rôl cydgomisiynu gryfach pan fo'n bosibl. Mae PCCau eisoes yn rhanddeiliaid lleol pwysig mewn perthynas â gwasanaethau prawf - maent yn gyfrifol am gomisiynu a phennu cyfeiriad strategol ar gyfer yr heddlu, ac mae ganddynt bŵer cynnull statudol i ddod â phartneriaid lleol at ei gilydd. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, bydd y PCC yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol neu'r Bwrdd Lleihau Aildroseddu, a gall gyflawni swyddogaeth bwysig o ran clustnodi materion lleol a dod ag asiantaethau at ei gilydd er mwyn ymateb iddynt. Rydym eisiau archwilio sut y gall PCCau chwarae rôl fwy gweithredol o ran cefnogi gwasanaethau prawf yn eu hardaloedd.
102. Yn y dyfodol, rydym eisiau gweld darparwyr gwasanaethau prawf yn ymgysylltu'n fwy rhagweithiol gyda PCCau er mwyn nodi blaenoriaethau cyffredin ac archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd mewn gwasanaethau, yn arbennig pan fo hynny yn gwneud y mwyaf o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig. Rydym yn gwybod bod argaeledd data ar lefel heddlu wedi bod yn rhwystr ar brydiau i'r math yma o ymgysylltu, a byddwn yn archwilio opsiynau i greu mwy o fynediad at ddata er mwyn helpu i gefnogi cydweithredu a hysbysu penderfyniadau comisiynu lleol.
103. Rydym hefyd yn credu bod yna rai cohortau penodol o droseddwyd y mae gan y gwasanaeth prawf a'r heddlu ddiddordebau cyffredin ynddynt. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod yna graidd o droseddwyd sydd yn troseddu'n gynyddol gyson fydd yn arwain at faich sylweddol ar adnoddau y gwasanaeth prawf a'r heddlu. Rydym eisoes wedi gweld ymdrechion sylweddol i greu cynlluniau 'rheoli troseddwyd integredig' er mwyn sicrhau bod y grŵp yma yn cael ei reoli'n agos ar draws yr asiantaethau, a bu rhai canlyniadau cadarnhaol. Mae hwn yn amlwg yn faes ble gellir gwneud mwy, a hoffem weld cydweithredu mwy rheolaidd a strategol gyda phartneriaid lleol fel ymateb i'r heriau sylweddol hyn.
104. Mae grwpiau cohort eraill, megis troseddwyd benywaidd, hefyd yn darparu cyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd ac arloesi o ran datblygu darpariaeth gwasanaethau cydweithredol. Mae nifer o PCCau eisoes yn ariannu gwasanaethau i droseddwyd benywaidd, ac rydym eisiau gweld cydweithredu parhaus rhwng PCCau a'r gwasanaethau prawf, yn cynnwys cydgomisiynu'r gwasanaethau hyn pan fo'n bosibl er mwyn gwneud y mwyaf o fuddsoddiad.

**Cwestiwn 15: Sut allwn gefnogi mwy o ymgysylltu rhwng PCCau a darparwyr gwasanaethau prawf, yn cynnwys mwy o gydgomisiynu gwasanaethau?**

**Cyd-ddylunio gyda Llundain a Manceinion Fwyaf**

105. Rydym yn cydnabod bod y cyd-destun lleol hefyd yn parhau i esblygu, ac mae yna fwy y gallwn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau prawf yn alinio â rhanbarthau sydd â mwy o gyfrifoldebau datganoledig. Rydym yn awyddus i archwilio cyfleoedd mewn perthynas â hynny ac rydym eisiau profi buddion cyd-ddylunio trefniadau

newydd gyda Llundain a Manceinion Fwyaf fel y ddau ranbarth datganoledig mwyaf datblygedig, a ble mae gennym gytundebau datganoli cyfiawnder troseddol wedi eu sefydlu eisoes.

106. Yn gynharach eleni bu i ni lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Swyddfa Maer Llundain dros Blismona a Throseddu (MOPAC) a Chynghorau Llundain. Fel rhan o'r cytundeb hwn bu i ni ymrwymo i gydweithio er mwyn cyd-ddylunio trefniadau prawf i'r dyfodol yn Llundain. Rydym eisoes wedi dechrau ar waith gyda MOPAC er mwyn ystyried blaenoriaethau sy'n benodol i Lundain a chyfleoedd i deilwra trefniadau yn y dyfodol fel y gall gwasanaethau prawf integreiddio'n well â darpariaeth leol bresennol a'r cyd-destun darparu cymhleth yn Llundain. Dros yr haf bydd MOPAC yn diffinio eu blaenoriaethau ar gyfer Llundain ac ar y cyd byddwn yn cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â'r farchnad er mwyn archwilio gofynion ac addasiadau ychwanegol y gallwn eu gwneud i'r ffordd y mae gwasanaethau prawf yn cael eu darparu yn Llundain, yn cynnwys cyfleoedd i gydgomisiynu gwasanaethau yn well.
107. Rydym hefyd yn y broses o gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd gydag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, a byddwn yn gweithio gyda nhw hefyd ar ail-ddylunio trefniadau i'r dyfodol. Mae Manceinion Fwyaf eisoes wedi arloesi gydag ymagwedd system gyfan tuag at droseddwr bynywaidd a gorchmynion cymunedol dwys ar gyfer dynion 18-25 oed sy'n wynebu risg o gael dedfryd o garchar, sydd wedi dangos deilliannau cadarnhaol. Gyda Manceinion Fwyaf, rydym yn credu bod lle i ni archwilio mwy o gyfleoedd er mwyn integreiddio neu gydgomisiynu mwy ar ddarpariaeth leol. Byddwn yn gweithio gyda nhw er mwyn clustnodi eu blaenoriaethau lleol a chyfleoedd i deilwra elfennau o'r ddarpariaeth yng Ngogledd Orllewin Lloegr er mwyn adlewyrchu hynny. Byddwn ar y cyd yn cynnal digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r farchnad er mwyn archwilio cyfleoedd posibl gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr arfaethedig.

## Gwasanaeth prawf sydd yn gweithio i Gymru

108. Mae Deddf Cymru 2017 yn nodi bod yna un awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Cymru a Lloegr ac mae'n rhestru meysydd cyfiawnder sydd wedi eu cadw gan Lywodraeth y DU, yn cynnwys rheoli troseddwy. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â materion datganoledig yn cynnwys iechyd, tai, llesiant cymdeithasol ac addysg. Yn ymarferol, mae hyn yn cyflwyno cyddestun hanfodol wahanol ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n ddi-fwlch.

## Trefniadau partneriaeth penodol yng Nghymru

109. Er mwyn adlewyrchu'r trefniadau partneriaeth penodol sydd wedi deillio o ddatganioli, mae'r gwasanaethau carchar a phrawf wedi eu ffurfio yn wahanol yng Nghymru. Mae gan HMPPS Cymru Gyfarwyddwr Gweithredol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y pum carchar sector cyhoeddus a'r NPS yng Nghymru. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn gyfrifol am reoli contract HMP Parc (carchar preifat) a CRC Cymru. Ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae HMPPS Cymru yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r PCCau er mwyn darparu ystod eang o wasanaethau sydd yn bodloni anghenion troseddwy a dioddefwyr yng Nghymru.

110. Mae partneriaid eisoes wedi dod at ei gilydd yng Nghymru er mwyn cyfuno darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu, ac mae nifer ohonynt yn cael eu comisiynu ar y cyd ag asiantaethau allweddol o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan<sup>2</sup>. Mae'r Bwrdd yn gyfarfod strategol allweddol ble mae PCCau, HMPPC Cymru, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid eraill yn dod at ei gilydd. Mae 'Fframwaith ar gyfer Cefnogi Newid Cadarnhaol i rai sy'n Wynebu Risg o Droseddu yng Nghymru' yn enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng HMPPS Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol, oherwydd ei fod yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer lleihau aildroseddu sydd yn cael eu cyflawni ar draws Cymru.

## Datblygu trefniadau prawf sydd wedi eu teilwra'n well ar gyfer Cymru

111. Nawr rydym eisiau mynd gam ymhellach er mwyn adeiladu ar y gwaith yma. Rydym eisiau manteisio ar y cyfle unigryw yng Nghymru i integreiddio'n well y ffordd o ddarparu gwasanaethau carchar a phrawf, ac i wella'r uniad a gwasanaethau eraill sydd eu hangen ar droseddwy er mwyn newid eu bywydau. Eisoes mae gennym le o fewn y fframwaith deddfwriaethol i addasu model er mwyn gweddu i anghenion penodol Cymru.

---

<sup>2</sup>Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, Gwasanaeth Llysoedd EM, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Cymorth i ddiodeffwyr, GIG Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

112. Pan ddaw contract presennol CRC Cymru i ben yn 2020, byddwn y symud i fodel darparu arall yng Nghymru. Bydd yr NPS yng Nghymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli pob troseddwr - risg uchel, canolig ac isel - fel y bydd un sefydliad yn gyfrifol am roi cyngor i'r llysoedd, cynnal asesiadau risg ac angen, cynllunio dedfrydau a rheoli gorfodaeth ac adalw. Bydd staff prawf sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau rheoli troseddwr ar gyfer troseddwr risg isel a chanolig i CRC Cymru yn symud i'r NPS. Bydd yr NPS yng Nghymru yn ail-ddylunio ac yn ailffurfio nifer o'i bolisiau a'i brosesau er mwyn addasu i'r newid hwnnw, ac rydym yn disgwyl y bydd hynny yn gallu creu buddion effeithlonrwydd a phrosesau effeithlon.
113. Yna rydym yn bwriadu i ddarpariaeth gwasanaethau ychwanegol ac i ymyriadau gael eu rhoi allan i dendr er mwyn galluogi i ystod o ddarparwyr a sefydliadau yn y trydydd sector gystadlu i'w darparu. Bydd hynny'n debygol o gynnwys rhannau craidd cyflawn dedfrydau, megis gweithredu cynlluniau gwaith di-dâl a rhaglenni achrededig, yn ogystal â'r gwasanaethau eraill sydd eu hangen er mwyn lleihau aildroseddu a chadw cymunedau yn ddiogel. Ar hyn o bryd mae HMPPS Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer adeiladu ar lwyddiannau blaenorol mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau gyda phartneriaid allweddol, a bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid a'r farchnad er mwyn archwilio mwy ar yr opsiynau hynny, yn cynnwys drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu penodol yng Nghymru.
114. Wrth i ni sefydlu'r trefniadau darparu newydd yma yng Nghymru, a monitro eu heffaith, byddwn yn ystyried a oes yna bethau i'w dysgu sy'n gymwys i'r system brawf yn Lloegr.

**Cwestiwn 16: Sut allwn ni sicrhau bod trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yng Nghymru yn cynnwys partneriaid allweddol, yn ategu trefniadau presennol ac yn adlewyrchu sgiliau a gallu darparwyr?**

## Ysgogi gwell perfformiad

115. Rydym eisiau i'n system brawf yn y dyfodol barhau i ganolbwyntio ar deilliannau allweddol, megis adsefydlu troseddwy'r a lleihau aildrosedd, yn ogystal â chyflawni'r pethau elfennol yn iawn, megis cyflawni dedfryd y llys a diogelu'r cyhoedd. Rydym yn bwriadu i ddarparwyr gael eu hariannu a'u hannog yn briodol er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd dda sydd yn gwireddu'r amcanion hynny.
116. Roedd diwygiadau Trawsnewid Adsefydlu yn amcanu at ysgogi gwelliannau mewn perthynas ag adsefydlu drwy gysylltu cyfran o daliad y CRC i'w llwyddiannau o ran lleihau trosedd. Bu i'r gyfran honno gynyddu yn ystod oes y contractau er mwyn annog mwy ar gcontractwyr i fuddsoddi ac arloesi er mwyn mynd i'r afael â hen heriau. Nod hynny oedd sicrhau bod darparwyr yn canolbwyntio ar adsefydlu troseddwy'r a lleihau trosedd, ac roedd yn dilyn cynlluniau peilot talu-yn-seiliedig-ar-ganlyniadau yn Peterborough a Doncaster.
117. Am y rhesymau a nodwyd eisoes, mae CRCau wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol sydd wedi tanseilio eu gallu i fuddsoddi mewn gwella ansawdd gwasanaethau, gan ddisgwyl y byddai hynny yn arwain at leihau troseddau ac incwm taliad-yn-seiliedig-ar-ganlyniadau o ganlyniad i hynny. Er bod canlyniadau sydd wedi eu cyhoeddi yn dangos, ar gyfartaledd, bod CRCau wedi lleihau nifer y bobl sy'n aildrosedd o ddau bwynt canran ers 2015, rydym yn gwybod bod amledd aildrosedd wedi codi yn ystod yr un cyfnod yn achos y rhan fwyaf o'r CRCau. Hyd yma nid yw'r mecanwaith talu-yn-seiliedig-ar-ganlyniadau wedi ysgogi lefel yr ansawdd neu arloesi mewn gwasanaethau a ragwelwyd, ac erbyn hyn rydym yn gwybod bod perfformiad yn erbyn amledd mesurau aildrosedd yn creu atebolrwydd ariannol i ddarparwyr, ac mae hynny yn bygwth eu gallu i ddarparu gwasanaeth o'r safon sy'n ofynnol.
118. Er mwyn sicrhau bod darparwyr wedi eu harfogi'n well i ddarparu gwasanaethau o'r safon yr ydym yn ei ddymuno, rydym yn bwriadu newid y ffordd maent yn cael eu hariannu fel nad yw cost resymol darparu gwasanaethau prawf craidd yn effeithlon yn cael ei figwth. Rydym yn dal eisiau annog arloesedd a chyflawni deilliannau perfformiad allweddol, a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r farchnad er mwyn clustnodi y cymhellion priodol er mwyn cyflawni hynny. Yn benodol, rydym eisiau ystyried sut y gallwn hyrwyddo ffocws ar feysydd allweddol megis llety, cyflogaeth, iechyd a chamddefnyddio sylweddau, yn ogystal ag aildrosedd, gan gydnabod nad cyfrifoldeb y gwasanaeth prawf yn unig yw tacllo'r materion yma. Rydym hefyd yn ystyried sut y gall ein swît o fesurau perfformiad i'r dyfodol a'r lefelau gwasanaeth ysgogi darparwyr yn fwy effeithiol i ganolbwyntio ar ansawdd y gwasanaethau maent yn eu darparu, a sut mae'r rhain yn gweddu â'r mesurau perfformiad yr ydym yn eu datblygu ar gyfer carchardai.

**Cwestiwn 17: Beth ddylai ein mesurau llwyddiant allweddol fod ar gyfer darparwyr gwasanaethau prawf, a sut y gallwn annog y ffocws priodol ar y deilliannau hynny yn effeithiol ac ar ansawdd gwasanaethau?**

## Trosolwg a monitro

119. Mae tryloywder perfformiad yn hanfodol wrth hyrwyddo hyder y cyhoedd a gwella ansawdd gwasanaethau prawf. Rydym eisiau sicrhau bod darparwyr yn atebol am ansawdd eu gwaith, sut maent yn rheoli risg ac yn diogelu'r cyhoedd, a chydabod a hyrwyddo ymarfer dda.
120. Er mwyn helpu i gyflawni hynny rydym eisoes wedi atgyfnerthu rôl Prawf HMI er mwyn sicrhau ffordd fwy effeithiol o archwilio darparwyr. Ym mis Mawrth cyhoeddodd Prawf HMI safonau archwilio newydd, ac adolygu eu fframwaith fel bod pob darparwr gwasanaeth prawf yn cael ei archwilio a'i raddio yn flynyddol, gan alinio gwasanaethau prawf yn well â'r tryloywder oedd eisoes yn cael ei ddarparu ar gyfer carchardai drwy Raddau Perfformiad Carchardai Blynnyddol. Fel yn achos adroddiadau archwilio presennol, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi a bydd disgwyl i ddarparwyr sefydlu cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd. Rydym wedi sefydlu tîm yn HMPPS er mwyn cefnogi a herio darparwyr i weithredu'r cynlluniau gweithredu yma a sicrhau y gweithredir ar ganfyddiadau archwiliadau. Bydd y newid arwyddocaol yma i'n hymagwedd tuag at drosolwg ac archwilio yn gwella ansawdd ac atebolrwydd ac yn rhoi gwell syniad i ddarparwyr o sut mae eu perfformiad yn cymharu ag eraill yn y system.
121. Ym mis Mawrth bu i ni sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Phrawf HMI a eglurodd rolau a chyfrifoldebau rhwng yr adran a'r arolygiaeth, a nodi ein cyd-ddyheadau ar gyfer dyfodol trosolwg o'r gwasanaeth prawf, yn cynnwys newid i ddull sy'n fwy seiliedig ar risg. Bwriad hynny yw osgoi dyblygu mewn trefniadau trosolwg, lleihau'r baich ar ddarparwyr pan fo hynny yn briodol a darparu eglurder mewn perthynas â'n hymagwedd hirdymor tuag at drosolwg. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu a chyhoeddi Safonau Cenedlaethol wedi eu diweddarau ar gyfer y gwasanaeth prawf fel bod ein disgwyliadau o ddarparwyr gwasanaethau prawf yn adlewyrchu ein ffocws ar wella darpariaeth swyddogaethau rheoli troseddwr elfennol ac yn alinio'n agosach â safonau newydd Prawf HMI. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y Safonau Cenedlaethol a ddiweddarwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel y gallent ddarparu sylfaen ar gyfer ein disgwyliadau yn y dyfodol o ddarparwyr gwasanaethau prawf.

## Holiadur

Buasem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodwyd yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1: Pa gamau allwn eu cymryd er mwyn gwella dilyniant goruchwyliaeth drwy gydol dedfryd troseddwr?

Cwestiwn 2: Beth yw'r amledd cyswllt rhwng troseddwr a rheolwr troseddwr sydd fwyaf effeithiol er mwyn hyrwyddo ymgysylltu pwrpasol? Ym mha ffordd ddylai hynny amrywio yn ystod cyfnod o oruchwyliaeth, ac o dan pa amgylchiadau y mae dewisiadau amgen i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn briodol? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau?

Cwestiwn 3: Sut allwn hyrwyddo cynlluniau gwaith di-dâl sydd yn gwneud iawn â'r gymuned ac yn arfogi troseddwr â sgiliau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith?

Cwestiwn 4: Pa newidiadau ddylem eu gwneud i drefniadau goruchwyllo ôl-ddedfryd er mwyn eu gwneud yn fwy cymesur a gwella deilliannau adsefydlu? (Efallai y byddech yn dymuno cyfeirio eich ateb i gwestiwn 2.)

Cwestiwn 5: Pa gamau eraill fyddem yn eu cymryd er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd cyngor cyn-dedfrydu a sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau darparwyr prawf?

Cwestiwn 6: Pa gamau allwn eu cymryd i wella ymgysylltu rhwng y llysoedd a CRC?

Cwestiwn 7: Ym mha ffyrdd eraill allwn ni atgyfnerthu hyder mewn dedfrydau cymunedol?

Cwestiwn 8: Sut allwn sicrhau bod anghenion penodol a nodweddion bregus gwahanol gohortau o droseddwr yn cael eu bodloni'n well gan y gwasanaeth prawf? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi eich cynigion?

Cwestiwn 9: Ym mha ffordd y dylai gwasanaethau adsefydlu i'r dyfodol fodloni'n well anghenion troseddwr sydd wedi derbyn dedfrydau o garchar byr?

Cwestiwn 10: Pa sgiliau, hyfforddiant neu gymwysterau yr ydych yn credu sydd yn hanfodol ar gyfer swyddogion cyfrifol a awdurdodir i darparu gwasanaethau prawf, a sut ydych yn credu y mae'r rhain yn newid yn ddibynnol ar y mathau o droseddwr y mae staff yn gweithio gyda nhw?

Cwestiwn 11: Sut fydddech yn gweld cofrestr broffesiynol genedlaethol yn gweithredu ar draws yr holl ddarparwyr - y sector cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys staff asiantaeth - a pha wybodaeth y dylai gynnwys?

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno bod newidiadau i strwythur ac arweinyddiaeth ardaloedd prawf yn ddigon i greu integreiddio ar draws holl ddarparwyr gwasanaethau prawf?

Cwestiwn 13: Sut y gall darparwyr gwasanaethau prawf sicrhau mynediad effeithiol at yr ystod o wasanaethau adsefydlu sydd eu hangen ar gyfer troseddwr, a sut all partneriaid lleol allweddol gyfrannu tuag at gyflawni hynny?



Cwestiwn 14: Sut allwn sicrhau bod darparwyr y sector gwirfoddol yn ymgysylltu'n well â dylunio a darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu ar gyfer troseddwr yn y gymuned?

Cwestiwn 15: Sut allwn gefnogi mwy o ymgysylltu rhwng PCCau a darparwyr gwasanaethau prawf, yn cynnwys mwy o gydgomisiynu gwasanaethau?

Cwestiwn 16: Sut allwn ni sicrhau bod trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu yng Nghymru yn cynnwys partneriaid allweddol, yn ategu trefniadau presennol ac yn adlewyrchu sgiliau a gallu darparwyr?

Cwestiwn 17: Beth ddylai ein mesurau llwyddiant allweddol fod ar gyfer darparwyr gwasanaethau prawf, a sut y gallwn yn annog y ffocws priodol ar y deilliannau hynny yn effeithiol ac ar ansawdd gwasanaethau?

Ymatebwch ar-lein drwy ganolbwynt ymgynghori y Weinyddiaeth Gyfiawnder pan fo hynny'n bosibl: <https://consult.justice.gov.uk/hm-prisons-and-probation/strengthening-probation-building-confidence>

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.**

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghorol hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw cwmni/sefydliad</b> (os yn berthnasol)	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod Post</b>	
Os dymunwch i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhwch grynodeb am y bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

## Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 21 Medi 2018 drwy'r canolbwynt ymgynghori <https://consult.justice.gov.uk/hm-prisons-and-probation/strengthening-probation-building-confidence>

Os na allwch gael mynediad i'r canolbwynt ymgynghori, e-bostiwch yr ymatebion i [probationconsultation@justice.gov.uk](mailto:probationconsultation@justice.gov.uk)

Responses can also be sent by post to:

Probation Programme  
Ministry of Justice  
Post point 7.55, Tower  
102 Petty France  
London SW1H 9A

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gellir cael mwy o gopïau o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gwneud cais am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn gan [e-bost/rhif ffôn o'r adran bolisi sy'n nodd].

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth (sef, yn sylfaenol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG), y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (Rheoliad (EU) 2016/679), Deddf Diogelu Data 2018, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y DRhG, bod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac mae hwnnw'n delio ag ymrwymadau o ran

cyfrinachedd, ymysg materion eraill. O ystyried hyn, byddai'n help i ni petaech yn gallu egluro pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan pob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo ei hun, yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r deddfwriaeth diogelu data, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partion.

